



Visit Wales
Croeso Cymru

**Arweiniad i Gynllun Graddio
Sêr Llety Hostel ac o
natur Hostel**




Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyhoeddwyd gan Croeso Cymru
Tŷ Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd CF24 0UY
Ffôn: +44 (0)1443 845500.
www.cymru.gov.uk/twristiaeth

Cyflwynir yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn yn ddiffuant a gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau ei bod yn gywir. Ni all Croeso Cymru dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wall neu gamddehongliad. Mae pob atebolrwydd am golled, siom, esgeuluster neu unrhyw niwed arall a achoswyd drwy ddibynnu ar yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn wedi ei eithrio drwy hyn.

© Croeso Cymru 2010.



**Arweiniad i Gynllun Graddio
Sêr Llety Hostel ac o
natur Hostel**

Cynnwys

Manylion	Tudalen
Croeso a Nodyn Pwysig	1
Sut i ddefnyddio'r Arweiniad hwn	2
Beth yw Graddio Croeso Cymru?	3
Sut mae Graddio'n gweithio?	4
Eithriadau	5
Diffinio Dynodwyr	6
CANLLAWIAU YNGHYLCH ENNILL MARCIAU SÊR PENODOL	7
1 Y tu allan	9
2 Lletygarwch a Gwasanaeth	11
3 Glanweithdra	13
4 Ansawdd Bwyd a Gwasanaeth	16
5 Mannau Cyhoeddus	18
6 Ystafelloedd Gwely	22
7 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau	26
8 Cegin Hunan- Ddarpar	29
9 Cyfleusterau Eraill	32
GOFYNION CYFLEUSTERAU SY'N BERTHNASOL I HOLL LEFELAU MARCIAU SEREN	33
Hosteli, Bacpacwyr, Llety i Grwpiau a Gweithgareddau	
1 Anghenion Cyffredinol / Cyfleusterau	33
2 Ystafelloedd Gwely / Mannau Cysgu	34
3 Cegin / Man Bwyta	35
4 Ystafelloedd Gwely / Mannau Cysgu	36
5 Anghenion Ychwanegol ar gyfer Llety i Grŵp	37
6 Anghenion Ychwanegol ar gyfer Llety i Weithgareddau	37
GOFYNION CYFLEUSTERAU SY'N BERTHNASOL I HOLL LEFELAU MARCIAU SEREN	38
Llety Tŷ Bynciau	
1 Anghenion Cyffredinol / Cyfleusterau	38
2 Ystafelloedd Gwely / Man Cysgu	38
3 Cegin / Mannau Bwyta	39
4 Ystafelloedd Ymolchi	39
GOFYNION CYFLEUSTERAU SY'N BERTHNASOL I HOLL LEFELAU MARCIAU SEREN	40
Llety Ysgubor Wersylla	
1 Adeiladwaith	40
2 Cyfleusterau	40
Côd Ymddygiad	42
Amodau Cymryd Rhan	43
Beth i'w wneud os ydych chi'n anghytuno â'r marciau Sêr a roddwyd	44
Manylion Cyswllt	I/BC



CROESO i Safonau Sicrwydd

Ansawdd Croeso Cymru

NODYN PWYSIG: Mae Croeso Cymru'n dosbarthu'r arweinlyfr hwn yn 2006, fel y gall perchnogion Hosteli / Llety Bacpacwyr, Llety Grwpiau a Gweithgareddau, eiddo Tai Bynciau ac Ysguboriau Gwersylla yng Nghymru gael amser i wneud unrhyw addasiadau sydd eu hangen i ateb gofynion y cynllun graddio Sêr wedi'i gydgordio, fydd yn cael ei gyflwyno gan Fyrddau Twristiaeth Cenedlaethol ledled Prydain cyn bo hir. Yng Nghymru, bydd y marciau Sêr a enillwyd dan y cynllun hwn yn cael eu defnyddio i ddibenion hyrwyddo yn unig o **1 Hydref 2007** ymlaen. (h.y. ar gyfer y pamffledi a gyhoeddir ar gyfer 2008). Tan hynny, bydd y marciau a roddwyd dan gynllun graddio Sêr (presennol) Croeso Cymru yn parhau i fod yn ddilys (a chymryd eich bod yn dal i gymryd rhan yn system raddio Croeso Cymru). Mae manylion y cynllun hwnnw ar gael mewn cyhoeddiad arall gan Croeso Cymru - "Arweiniad i Gynllun Graddio Sêr Llety Campws, math Hostel a Chanolfan Weithgareddau" (clawr coch). Wrth ymweld â'ch eiddo, bydd ein Haseswyr Ansawdd yn fodlon trafod â chi a'ch cynghori ynghylch unrhyw ymholiad fydd gennych ynglŷn â graddio.

Gwella Safonau ansawdd

Mae cael llety sy'n gynnyrch o safon i'w gynnig i gwsmeriaid yn anhepgor i gael diwydiant cystadleuol byd-eang yng Nghymru. Mae Croeso Cymru eisiau gweithio â'r diwydiant yng Nghymru i wneud yn siŵr bod ein llety'n parhau i fod yn gystadleuol o'i gymharu â chyrchfannau ymwelwyr eraill.

Er mwyn cael cynnyrch o safon mae'n rhaid i holl elfennau profiad yr ymwelwyr, o'r ymholiad cyntaf hyd nes y byddant yn gadael i fynd adref, fodloni neu ragori ar ddisgwyliadau'r defnyddiwr.

Mae codi safonau llety yn hanfodol i ddatblygiad twristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, felly rydym yn eich annog i weithio â Chroeso Cymru trwy gyfrwng ein cynllun graddio, sy'n gosod safonau sydd union yr un fath â'r rheiny sy'n cael eu gweithredu yn Lloegr a'r Alban.

Y Manteision

Mae cynlluniau Sicrwydd Ansawdd Croeso Cymru yn werth da am arian ac yn cynnig nifer o fanteision.

Trwy ymuno, cewch gyfleoedd hyrwyddo fel a ganlyn:

- Eich cynnwys ar restr ar wefannau **www.visitwales.com** a **www.visitbritain.com** yn ogystal â mynediad i gyhoeddiadau ac ymgyrchoedd marchnata Croeso Cymru.
- Adroddiad manwl am yr asesiadau ac adroddiad dilynol gan Aseswyr Ansawdd profiadol.
- Mynediad i rwydwaith y Ganolfan Wybodaeth i Ymwelwyr.
- Arwyddion os fyddwch chi eu heisiau
- Mynediad i Cymorth Busnes
- Cyswllt rheolaidd â Chroeso Cymru (e.e. Siarad Siop)

SUT I DDEFNYDDIO'R ARWEINLYFR HWN

Rydym yn awyddus i roi syniad da i chi o'r hyn y mae graddiad Seren Croeso Cymru ar gyfer eiddo dull Hostel yn ei olygu. Byddwn yn dechrau trwy esbonio'n fyr beth yw graddio ac yna byddwn yn manylu cryn dipyn ynghylch y drefn a ddefnyddiwn i gyrraedd y marciau Sêr ar gyfer eich eiddo (tudalen 4).

Mae'r ymweliad gan ein Hasesydd Ansawdd yn golygu gwneud yn siŵr fod y cyfleusterau angenrheidiol ar gyfer pob graddiad Seren yn bresennol; mae'r manylion ar gael o dudalen 33 ymlaen.

Mae cydymffurfio â Chôd Ymddygiad Croeso Cymru yn rhan angenrheidiol o gael marciau Sêr, ac rydym yn rhestru'r manylion yma i chi ar dudalen 42.

Wedi darllen cynnwys ein llyfr, rydym yn gobeithio y byddwch yn penderfynu gwneud cais am asesiad graddio, ac mae manylion ynghylch sut i wneud hyn ar gael ar du mewn y clawr ôl.

Rydym eisiau i chi fod yn gwbl hapus â'r holl broses o asesu ansawdd, ond os nad ydych chi, rydym yn dweud wrthych beth i'w wneud ar dudalen 44.

Felly ...

BETH YW GRADDIO ANSAWDD SÊR CROESO CYMRU?

Graddio ansawdd yw asesu ansawdd cyffredinol eiddo, fel y gallwn osod yr eiddo ar raddfa rhwng 1 a 5 Seren, â 5 Seren yn dynodi'r safon uchaf. Mae'r ymweliad graddio'n gwneud yn siŵr hefyd fod cyfleusterau penodol, y mae defnyddwyr yn disgwyl eu cael ar raddfeydd Sêr arbennig, yn bresennol. Yna mae gan ddefnyddwyr sail i gymharu gwahanol fathau o eiddo sydd ar gael iddynt yng Nghymru, ac i ddod o hyd i rywle i aros ynddo sy'n ateb eu gofynion a'u disgwyliadau.

Trwy roi asesiad i chi ar ffurf adroddiad manwl, bydd ymweliad graddio Croeso Cymru yn eich helpu chi, y sawl sy'n darparu'r llety, gynnal a datblygu ansawdd eich eiddo. Mae'r llyfr hwn yn rhoi arweiniad i chi ynghylch yr hyn a ddisgwylir ar bob lefel ansawdd ar gyfer pob agwedd ar yr eiddo, a bydd yr Asesydd Ansawdd yn cyfeirio at hwn wrth ymweld â chi.

SUT Y MAE GRADDIO ANSAWDD YN GWEITHIO?

Mae tair elfen i'r broses sy'n arwain at raddfa ansawdd

Cam 1 – Bydd Asesydd ansawdd Croeso Cymru'n sgorio'r holl eiddo

Cam 2 – Yna bydd yr Asesydd yn gwneud yn siŵr fod elfennau penodol o'r eiddo yn unol â'r hyn a elwir yn "Gymhwyswyr Adran" o ran ansawdd.

Cam 3 – Yn olaf bydd yr asesydd yn gwneud yn siŵr fod y gofynion o ran cyfleusterau, sy'n briodol i'r marciau Sêr, yn bresennol.

Cam 1

Bydd yr Ymweliad yn dechrau wrth i'n Ymgynghorydd Ansawdd gynnal asesiad gwrthrychol, ansoddol o bob agwedd ar eich eiddo, gan ddechrau â thu allan yr adeilad, gan gynnwys y tir ac unrhyw fannau parcio, cyn dechrau asesu'r tu mewn i gyd. (Edrychwch ar yr adroddiad sampl ar dudalennau 7-9).

Yn hanfodol, bydd sgôr rhifiadol yn cael ei roi i bob agwedd a asesir a bydd y sgôr hwnnw'n hafal i ddisgrifiad lefel ansawdd. Defnyddir graddfa o 1 i 5, felly os yw rhywbeth o safon Ardderchog, mae'n cael 5 pwynt; os ystyrir ei fod yn Dderbyniol, bydd yn derbyn sgôr o 1. Er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ragfarn, mae ein Hymgynhorywr Ansawdd yn cael eu hyfforddi'n drwyadl ac y maen nhw'n dilyn canllawiau a chyfarwyddiadau penodo. Mae'r gwahanol bwyntiau gwerth yn dynodi lefelau esgynnol o ansawdd fel a ganlyn:

- Safon Ardderchog - 5 pwynt
- Safon Da Iawn - 4 pwynt
- Safon Da - 3 pwynt
- Safon Eithaf Da - 2 pwynt
- Safon Derbyniol - 1 pwynt

Unwaith y bydd ffurflen yr adroddiad wedi'i llenwi a'r holl sgoriau wedi cael eu neilltuo, byddant yn cael eu hadio at ei gilydd, a bydd sgôr canran ar gyfer ansawdd yr eiddo i gyd yn cael ei amcangyfrif. Trwy edrych ar yr ystod canran bandio Sêr, bydd yr asesydd Ansawdd yn cael syniad cychwynnol o'r hyn all fod y marciau Sêr cyffredinol:

Marciau Sêr	Y canran cyffredinol sydd ei angen	Y Cymhwyswyr Adran
1 Seren	34 – 47%	Dim maes i sgorio llai na 34% · sgôr lleiaf am lanweithdra 40%
2 Seren	48 – 59%	Dim maes i sgorio llai na 40% · sgôr lleiaf am lanweithdra 48%
3 Seren	60 – 74%	Dim maes i sgorio llai na 54% · sgôr lleiaf am lanweithdra 64%
4 Seren	75 – 86%	Dim maes i sgorio llai na 67% · sgôr lleiaf am lanweithdra 76%
5 Seren	87%+	Dim maes i sgorio llai na 80% · sgôr lleiaf am lanweithdra 88%

Cyn y gellir pennu'r canlyniad olaf hwnnw, fodd bynnag, mae dau gam pellach.

Cam 2

Bydd yr Asesydd Ansawdd yn archwilio'r ffurflen gan edrych am gysondeb ansawdd – o dan yr hyn rydym yn ei alw yn "Gysondeb Adranno".

Diben hyn yw gwneud yn siŵr nad oes un agwedd ar eiddo wedi codi'r marc canran cyffredinol yn artiffisial oherwydd bod y safon yn uwch nag mewn rhannau eraill o'r eiddo.

Mae ymchwil wedi dangos fod ansawdd agweddau penodol o eiddo yn arbennig o bwysig i westeion. Os yw ansawdd y rhain yn is na disgwyliadau gwesteion yna byddant yn cael eu siomi. Oherwydd hynny mae'n bwysig iawn fod ansawdd y meysydd allweddol hyn yn cyfateb i radd gyffredinol yr eiddo

Y prif feysydd yw:

- **Lletygarwch**
- **Glanweithdra**
- **Ystafelloedd Gwely**
- **Ystafelloedd Ymolchi**
- **Mannau Cyhoeddus**
- **Ceginau.**

Os bydd canran cyffredinol Cam 1 yn dod o fewn i fand 4 Seren (75% i 86%) er enghraifft mae'n rhaid i'r sgôr canran ar gyfer pob un o'r chwe maes hyn ddod o fewn i'r band 4 Seren (Gweler y tabl ar dudalen 4) - sylwch os gwelwch yn dda fod "glanweithdra" yn arbennig o bwysig, ac y mae ganddo ei ganrannau bandio ei hun.

Mae'r un peth yn wir am bob lefel.

Os bydd y sgôr ansawdd unigol ar gyfer unrhyw un o'r chwe maes hyn yn is na'r radd gyffredinol a nodwyd yng Ngham 1 yna bydd y radd derfynol a ddyfernir yn cael ei ostwng yn unol â hynny. Er enghraifft, gan ddilyn yr esiampl flaenorol, pe bai'r Ystafelloedd Ymolchi yn cael sgôr o 65% yn unig, yna byddai hyn yn golygu na allai'r eiddo cyfan ennill dim mwy na 3 Seren.

Cam 3

Yn olaf, mae'n rhaid gwneud archwiliad i wneud yn siŵr fod unrhyw gyfleusterau ychwanegol sydd eu hangen ar lefel Sêr penodol yn bresennol, yn ogystal â sicrhau fod safonau'r cyfleusterau sy'n berthnasol i'r holl lefelau marciau Sêr yno ar gyfer gwesteion. Dangosodd ein hymchwil ni fod y defnyddiwr yn disgwyl mwy o gyfleusterau, po uchaf oedd y marciau.

EITHRIADAU

Lle nad oes agwedd benodol ar gael (e.e. prydau a gwasanaeth prydau, tir, gerddi, parcio ceir ac ati) ni fydd sefydliadau'n cael eu cosbi am beidio â'u darparu. Fodd bynnag, lle bônt ar gael byddant yn cael eu hasesu. Nid yw hyn yn berthnasol i Ofynion Mynediad Lleiaf, y mae'n rhaid eu darparu.

DIFFINIO DYNODWYR:

Bydd pob llety'n cael ei osod yn un o'r is-gategoriâu neu **ddynodwyr** disgrifiadol canlynol. Rydym wedi datblygu'r is-gategoriâu hyn er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall yn well beth yw'r gwahanol fathau o lety hostel sydd ar gael.

Dylai llety ym mhob un o'r is-gategoriâu hyn ddiwallu'r holl ofynion mynediad lleiaf ar gyfer pob sector.

Hostel

Llety â marciau sêr sydd i'w gael yn aml mewn ystafelloedd a rennir ac sy'n cynnwys gwelyau bync; fe all ystafelloedd i deuluoedd fod ar gael hefyd. Fel arfer bydd hosteli'n croesawu unigolion, teuluoedd a grwpiau, nifer ohonynt yn aros am gyfnod byr. Bydd gan hosteli drefniant eithaf ffurfiol yn aml, ac fe all hyn gynnwys mynediad cyfyngedig neu beidio, gwasanaeth prydau, ac ati.

Llety i Grwpiau

Llety â marciau sêr sydd i'w gael yn aml mewn ystafelloedd a rennir ac sy'n cynnwys gwelyau bync. Dim ond lle i grwpiau a neilltuir yn bennaf, â gwasanaeth llawn efallai neu'n hunanarlwyo. .

Llety Gweithgareddau

Llety â marciau sêr a ddarperir i grwpiau fel arfer. Bydd y sefydliad yn cynnig gweithgareddau cwbl ardystiedig neu drwyddedig gan A.A.L.A. Fe all gynnig gwasanaeth llawn neu hunan-ddarpar.

Llety Bacpacwyr

Bacpacwyr – Tebyg iawn o ran steil i hostel, ond fe all gael ei gynnal mewn dull llai ffurfiol, fel mynediad 24 awr er enghraifft. Byddant yn aml yn fwy addas ar gyfer teithwyr annibynnol dros gyfnod hwy a'r elfen ifanc yn y farchnad ac maen nhw'n tueddu i beidio â chymryd grwpiau teuluol.

Llety Tŷ Bynciau

Llety gwledig â marciau sêr, y gall grwpiau neu unigolion ei fwcio. Gall gwasanaethau a chyfleusterau fod yn gyfyngedig, ond bydd yn cynnwys cyfleuster hunanarlwyo.

Ysguboriau Gwersylla

Llety syml dros nos mewn ardal wledig y cyfeirir ato'n aml fel "pebyll carreg". Eu mantais yw bod digon o le ynddynt a'u bod yn sych; fel arfer dylai ymwelwyr ddod â'u sachau cysgu a'u hoffer coginio eu hunain. Fe all grwpiau neu deithwyr unigol gael eu derbyn.

Sylwch os gwelwch yn dda:

Mae llety Hostel/Bacpacwyr, llety Grŵp/llety gweithgareddau a thŷ bynciau i gyd wedi eu graddio yn ôl ansawdd; y safonau sylfaenol yn unig sydd i'w cael mewn ysguboriau gwersylla.

Sylwch: Bydd ysguboriau gwersylla'n cael eu harchwilio i wneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd y lefel mynediad lleiaf. Unwaith y bydd yr asesiad yn dangos fod yr eiddo'n cyrraedd y lefel mynediad lleiaf bydd yn cael ei ddsbarthu yn **Gwiriwyd**. Mae hyn yn lle marciau Sêr. Yna bydd cadarnhad o'r gwirio yn cael ei anfon i'r Gweithredwr mewn llythyr.

Termau

Trwy'r llyfr hwn, byddwch yn gweld geiriau fel "Da", "Da Iawn", "Ardderchog" – maen nhw'n dynodi lefelau esgynnol o ansawdd yn fras iawn yn unig. Mae'r safonau hyn yn nodi beth yw disgwyliadau nodweddiadol defnyddwyr ar gyfer pob lefel Seren yn gyffredinol. Nid ydynt yn rhagnodol nac yn derfynol, gan fod nifer o agweddau i safon uchel a sawl dull o'i gyrraedd.

Canllawiau ynghylch yr ansawdd a ddisgwylir ar gyfer ennill marciau sêr penodol

Graddio Ansawdd

Darllenwch y rhan hon yng nghyd-destun y broses 3-gam sy'n rhan o ennill marciau Sêr cyffredinol, fel yr eglurwyd ar dudalennau 4 - 5.

Mae'r adrannau yn y rhan hon o'r arweinlyfr yn dilyn trefn y ffurflen raddio ac y mae'n dweud wrthyhych chi beth yw ystyr marciau'r Asesydd Ansawdd dan bob eitem ar y ffurflen. Mae'n rhoi syniad i chi o'r hyn a ddisgwylir ar wahanol lefelau o ansawdd, lefel 5 - Ansawdd Ardderchog, fel y mae'n gymwys i'r agwedd honno o'r eiddo. Dylai eich helpu i ddeall yr hyn sy'n arwain ein hasesydd Ansawdd i roi sgôr arbennig.

Sylwch mai cynrychioladol yw'r Dangosyddion Ansawdd hyn, ond nid ydynt yn derfynol nac yn rhagnodol.

Bydd yr agweddau canlynol yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymweliad asesu ansawdd

1 Y tu allan	<ul style="list-style-type: none"> Golwg adeiladau Tir, Gerddi a Pharcio Amgylchedd
2 Lletygarwch a Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> Lletygarwch Gwasanaeth ac Effeithiolrwydd Cyffyrddiadau Personol a Gwybodaeth i Ymwelwyr
3 Glanweithdra ym mhob maes	<ul style="list-style-type: none"> Mannau Cyhoeddus Ystafelloedd Gwely Ystafelloedd Ymolchi Cegin hunanarlwyo
4 Ansawdd a gwasanaeth bwyd	<ul style="list-style-type: none"> Ansawdd y Bwyd (Brecwast) Ansawdd y Bwyd (Swper) Gwasanaeth Prydau
5 Mannau Cyhoeddus (mae'n cynnwys pob grisiau, pen grisiau a choridorau)	<ul style="list-style-type: none"> Addurniadau Eitemau dodrefnu, dodrefn a gosodiadau Lloriau Golau a gwres Lle, cysur a rhwydd i'w ddefnyddio
6 Ystafelloedd Gwely	<ul style="list-style-type: none"> Addurniadau Eitemau dodrefnu, dodrefn a gosodiadau Lloriau Golau a gwres Gwelyau a dillad gwely Lle, cysur a rhwydd i'w ddefnyddio
7 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau	<ul style="list-style-type: none"> Addurniadau Nwyddau glanweithiol a gosodiadau Lloriau Golau, gwres ac awyru Lle, cysur a rhwydd i'w ddefnyddio
8 Cegin Hunanarlwyo	<ul style="list-style-type: none"> Addurniadau Lloriau Golau, gwres ac awyru Gosodiadau a dodrefn Poptai a chyfarpar trydan/ nwy Llestri, Cylyll a Ffyr, cyfarpar coginioLle, cysur a rhwydd i'w ddefnyddio
9 Cyfleusterau Eraill*	<ul style="list-style-type: none"> Ystafell Golchi / Sychu Dillad Hamdden / cyfleusterau ychwanegol

* Nid yw'r cynllun graddio Sêr Croeso Cymru yn gofyn bod unrhyw gyfleusterau yn yr adran hon yn cael eu darparu, ond, os ydynt yn cael eu cynnig i westeion, yna byddant yn ffurfio rhan o'r asesiad graddio. Ni fydd unrhyw gosb ar gyfer peidio â'u darparu.

CANLLAW I LEFELAU "DANGOSYDDION ANSAWDD"	
Lefel 1 (yn sgorio 1 pwynt)	<ul style="list-style-type: none"> Ffactorau sy'n nodi'r lefel isaf o ansawdd sy'n cyfateb i Un Seren. Gellir disgrifio eitemau fel rhai derbyniol. Mae'n rhaid i bopeth fod yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da. Ni ddylai fod unrhyw angen amlwg i drwsio rhywbeth ar unwaith.
Lefel 2 (yn sgorio 2 bwynt)	<ul style="list-style-type: none"> Ffactorau sy'n nodi lefel ansawdd sy'n gymesur â Dwy Seren. Gellir disgrifio eitemau fel Eithaf Da. Ar y lefel hon gall eitemau fod yn gyfyngedig o ran ystod ond yn cynnig safon dda o ran glanweithdra ac mewn cyflwr da.
Lefel 3 (yn sgorio 3 phwynt)	<ul style="list-style-type: none"> Ffactorau sy'n nodi lefel ansawdd sy'n gymesur â Thair Seren. Gellir disgrifio eitemau fel Da. Gall fod rhywfaint o dystiolaeth o draul a gwisgo ond ei fod yn dal i ddangos safon cynnal da o ran cyfleusterau ac addurniadau.
Lefel 4 (yn sgorio 4 pwynt)	<ul style="list-style-type: none"> Ffactorau sy'n nodi lefel ansawdd sy'n gymesur â Phedair Seren. Gellir disgrifio eitemau fel Da Iawn heb unrhyw arwyddion amlwg o draul a gwisgo yn y cyfleusterau a ddarperir.
Lefel 5 (yn sgorio 5 pwynt)	<ul style="list-style-type: none"> Ffactorau sy'n nodi lefel ansawdd sy'n gymesur â Phum Seren. Gellir disgrifio eitemau fel Ardderchog. Bydd safon cyffredinol adeiladwaith yr adeilad, oddi mewn ac oddi allan, yn uchel iawn, yn ogystal â safonau Ardderchog o ran rheolaeth.

1 Y TU ALLAN:

Golwg yr adeiladau

Addurniadau, cynnal a chadw a thrwsio'r adeilad. Mae hyn yn cynnwys gwaith carreg, gwaith coed, rendro, gwaith paentio, cwterydd, peipiau glaw, plymio allanol, simneiau a thoeau. Bydd arwyddion allanol sydd ynghlwm wrth yr adeilad (egllurder a chynnal a chadw) a goleuo yn cael eu hystyried yma. Bydd unrhyw dai allan a manau storio e.e. manau sbwriel, yn cael eu hasesu yma hefyd.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Efallai bod y tu allan angen sylw a bod ôl rhywfaint o hindreulio mewn manau, e.e. peipiau dwr wedi rhydu, peintwaith wedi plicio neu wedi staenio ond bydd mewn cyflwr sy'n gyffredinol dderbyniol a diogel.
Lefel 2	Mewn cyflwr eithaf da yn gyffredinol; dylai arwyddion o draul a diffygion fod wedi eu cyfyngu i nifer fechan o fannau heb fod unrhyw ddiffygion sylweddol yn yr adeiledd. Gwaith coed mewn cyflwr diogel yn gyffredinol, er y gall rhai manau a baentiwyd fod yn dreuliedig / yn hindreulio neu'n plicio. Gall fod rhai diffygion bach, difrod, craciau ac ati yn y gwaith carreg. Cryn dipyn o fwsog a chen yn tyfu. Angen adnewyddu'r eiddo. Arwyddion yn dangos ôl traul.
Lefel 3	Y tu allan mewn cyflwr da yn gyffredinol; prif agweddau'r adeilad wedi eu cynnal a'u cadw'n dda. Y gwaith paent yn newydd i raddau helaeth ond peth mân hindreulio neu staenio i'w weld ar waith paent allanol. Drysau a ffenestri wedi eu hatgyweirio'n dda, er nad yn newydd o angenheidrwydd. Yr adeiledd allanol i gyd mewn cyflwr diogel. Lle bônt yn cael eu harddangos, bydd arwyddion yn cael eu cynnal mewn cyflwr da.
Lefel 4	Er nad yn ddilychwin yn gyffredinol efallai, mae er hynny yn dal i greu argraff gyntaf Da Iawn heb fod unrhyw agweddau wedi eu hesgeuluso. Gwaith carreg a gwaith paentio wedi eu cynnal i safon uchel; gall fod rhywfaint o arwyddion o hindreulio naturiol. Gall fod rhywfaint o nodweddion allanol ychwanegol fel bocsys ffenestri er mwyn gwella golwg y tu allan. Dylai unrhyw dai allan neu randai gyrraedd yr un safon.
Lefel 5	Adeiladau mewn cyflwr Ardderchog. Gwaith paentio o safon uchel heb unrhyw ddifrod na thraul yn amlwg; celfi drws ac arwyddion o ansawdd uchel. Pob adeilad ar y safle wedi eu cynnal a'u cadw yn ôl yr un safon uchel.

Tir, Gerddi a Pharcio

Os nad oes gan yr eiddo dir neu erddi diffiniedig, na gofod parcio o unrhyw fath, ni fydd yr adran hon yn cael ei hasesu. Bydd asesu'r maes hwn yn cynnwys gerddi, gwrychoedd, llwybrau, rhodfeydd, parcio, goleuo a phob man arall oddi mewn i ffiniau diffiniedig (h.y. ffensys, waliau neu wrychoedd) yr eiddo ac sydd dan reolaeth y sefydliad.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Llwybrau diogel, arwyddion mewn cyflwr rhesymol, argraff gyntaf dderbyniol. Mae'r tir yn rhesymol o daclus, gall fod rhai manau angen mwy o sylw. Parcio o ansawdd a chyflwr derbyniol lle bo'n cael ei ddarparu.
Lefel 2	Tystiolaeth bod rhywfaint o ymdrech wedi'i wneud i greu gerddi deniadol, taclus a di-sbwriel. Llwybrau mewn cyflwr Eithaf Da, heb fod perygl o faglu. Mynediad rhesymol o rwydd, parcio diogel ac wedi'i gynnal yn eithaf da.

Lefel 3	Safon dda yn gyffredinol. Bydd pob man yn dangos tystiolaeth ei fod yn derbyn sylw rheolaidd h.y. dim sbwriel, y gwellt yn cael ei dorri a dim ond ychydig o chwyn yn tyfu mewn llwybrau / rhodfeydd. Dylai arwyddion fod mewn cyflwr da ac yn effeithiol. Dylai manau parcio fod mewn cyflwr diogel a bod modd eu defnyddio.
Lefel 4	Safonau Da Iawn o ran cynnal a chadw mewn gerddi. Gwelyau, llwybrau a gwrychoedd taclus. Bydd pob coeden a llwyn wedi eu trin yn dda. Ni fydd manau cadw biniau sbwriel yn y golwg a gorau oll os ydynt wedi eu cuddio. Mynediad rhwydd i fannau parcio a'r arwynebau wedi eu cynnal yn dda ac yn ddiffiniedig.
Lefel 5	Nodweddion tirlunio, plannu a chynllunio meddylgar a dychmygus, yn addas ar gyfer y lleoliad a'r amgylchedd. Gall gynnwys man ar gyfer barbeciw / patio a seddi gardd. Gall gynnwys golau allanol effeithiol. Arwyddion o safon uchel mewn cyflwr dilychwin. Gofal a sylw manwl yn cael ei roi i bob agwedd yn amlwg. Lle bônt ar gael, bydd y manau parcio ceir wedi eu gosod allan yn dda ag arwyddion eglur ac arwyneb addas wedi'i gynnal yn dda. Cyflwyniad Ardderchog yn gyffredinol.

Amgylchedd

Darlun o agweddau cadarnhaol neu negyddol lleoliad yr eiddo a'r man cyfagos allai effeithio ar gysur y gwsteion.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Mewn ardal drefol llai ffafrïol, yn eithaf pell oddi wrth gludiant cyhoeddus ond heb fod yn wledig o gwbl; gallai fod yn dda oni bai am nodwedd arbennig sy'n perthyn i'r amgylchedd neu'r olygfa cyfagos.
Lefel 2	Mewn lleoliad sy'n rhesymol o hwylus ar gyfer cael rhywfaint o gludiant cyhoeddus cyfyngedig. Mewn lleoliad trefol sydd, efallai, yn eithaf pell o ganol y dref. Mewn lleoliad gwledig, efallai ar ochr priffordd neu â golygfeydd cyfyngedig.
Lefel 3	Mewn dinas / yng nghanol tref, â rhai cyfyngiadau parcio a thrafnidiaeth brysur ond yn agos at bob mwynder. Ar fferm weithio lle mae'r mynediad yn fwdlyd neu lle mae rhywfaint o beiriannau fferm gerllaw. Mewn ardal faestrefol dinas lle mae trafndiaeth brysur a sŵn.
Lefel 4	Byddai amgylchedd Da Iawn yn cynnwys eiddo gwledig all fod yn agos at ffyrdd, ond sydd â mantais golygfeydd hynod o hardd ac agored. Mae eiddo trefol yn debygol o fod yn ganolog i'r prif atyniadau a chludiant; gwnaed rhywfaint o ymdrech i oresgyn sŵn trafndiaeth / stryd e.e. gwydro dwbl.
Lefel 5	Mewn lleoliad trefol yng nghanol y ddinas â'r holl fwynderau, atyniadau a chysylltau cludiant i gyd ar gael wrth law. Mewn lleoliad gwledig â golygfeydd agored mewn ardal o harddwch naturiol nodedig, wedi'i leoli'n ddelfrydol ar gyfer dilyn amrywiaeth o weithgareddau awyr agored.

2 LLETYGARWCH A GWASANAETH

Lletygarwch

Bydd asesu lletygarwch a chyfeillgarwch yn ystyried yr agweddau canlynol: agwedd y staff, sgiliau gofal cwsmer, croeso a phob cyswllt â gwesteion.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Lletygarwch sydd o'r safon dderbyniol leiaf yn gyffredinol. Gellid gwella ar gynhesrwydd y croeso; prin y ceir cysylltiad rhwng gwesteion a staff neu berchnogion.
Lefel 2	Lletygarwch o safon Eithaf Da â rhywfaint o groeso cynnes. Mae'n debygol o gynnwys rhywfaint o gyswllt cadarnhaol rhwng staff a chwsmeriaid.
Lefel 3	Safon dda o letygarwch a chroeso sy'n amlwg gynnes. Staff ar gael yn syth i gynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth i westeion yn ôl y galw.
Lefel 4	Safon Da Iawn o letygarwch. Staff yn dangos ymrwymiad i ofal cwsmer. Staff yn rhagweithiol o ran cynnig cyngor a chymorth i westeion, ar gael yn amlwg ac yn barod i helpu ar bob amser rhesymol.
Lefel 5	Lletygarwch gwych â chroeso personol. Sicrhau cysur a lles gwesteion gydol eu harhosiad mewn modd rhagweithiol. Gall hyn gynnwys cyfraniad cadarnhaol a gwybodus a chynorthwyo cynlluniau a gweithgareddau gwesteion. Dylai staff fod yn amlwg ond nid yn ymwithiol a dylent barchu preifatrwydd gwestai lle bo'n addas.

Sylwch: Ar gyfer Llety i Grwpiau, Llety Gweithgareddau a Llety Tŷ Bynciau, ni fydd Cynghorydd Ansawdd yn gwneud asesiad dros nos; oherwydd hynny bydd yr adran hon yn cael ei gadael allan o'r asesiad.

Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd

Bydd gwasanaeth ac effeithlonrwydd yn asesu cymhwysedd, cyflymder a gallu staff wrth ymdrin â gwesteion a'u hanghenion. Bydd hyn yn cynnwys yr ymholiad cychwynnol, bwcio, gwybodaeth gan westeion wrth iddynt gyrraedd a gadael. Bydd effeithlonrwydd cyffredinol y rheoli'n cael ei asesu yma yn ogystal ag unrhyw gyswllt arall ag aelodau o staff yn ystod arhosiad gwesteion h.y. siopau, barau, mannau hamdden.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Mae'r gwasanaeth o safon dderbyniol yn gyffredinol. Gall fod yn anodd cysylltu â staff i neilltuo lle. Agwedd ffwrdd-â-hi i fwcio'n arwain at ddiffyg cadarnhad eglur bod y lleoedd a neilltuwyd yn ddiogel. Trefnau bwcio a derbynfa effeithiol, ond prin yw'r cyswllt â staff.
Lefel 2	Gwasanaeth o safon Eithaf Da. Gall oriau cyfyngedig yn y dderbynfa olygu fod cysylltu i fwcio'n anodd. Lle bo dibyniaeth ar beiriannau ateb ffôn, yna dylid ymateb yn fuan i unrhyw ymholiadau a adawyd ar y rhain. Mae pob archeb yn cael ei drin yn effeithiol mewn modd sy'n gwneud i'r gwestai deimlo'n hyderus bod ei le wedi ei neilltuo'n ddiogel a'i fod wedi'i gofnodi'n gywir. Pob aelod o staff o gymorth ac yn cynnig gwasanaeth eithaf da yn gyffredinol.

Lefel 3	Safon gwasanaeth da. Trefnau bwcio a neilltuo lle eglur ac wedi eu trefnu'n dda. Gellir cysylltu'n rhwydd â staff neu'r rheolwyr i neilltuo lle heb ddibynnu fawr ddim, os o gwbl, ar beiriannau ateb ffôn. Dylai staff gynnig gwybodaeth ddefnyddiol yn hael (cyfarwyddiadau, cludiant cyhoeddus ac ati) yn ôl y galw. Mae gwesteion yn gwbl hyderus yn y system fwcio. Mae pob aelod o'r staff h.y. yn y bar, siopau, mannau hamdden, yn cynnig gwasanaeth da gydol yr arhosiad.
Lefel 4	Safon gwasanaeth Da Iawn. Dylai trefnau bwcio eglur a rhwydd fod ar gael trwy gyfrwng dulliau gwahanol (ffôn, e-bost, rhyngwyd, bwcio uniongyrchol ac ati). Dylid ymateb yn gyflym ac effeithiol i bob ymholiad, trwy ba gyfrwng bynnag y bo hynny. Gwasanaeth Da Iawn. Mae'r holl staff yn barod eu cymorth gydol yr arhosiad.
Lefel 5	Safonau gwasanaeth ardderchog. Trefnau bwcio rhagorol trwy gyfryngau gwahanol sydd i gyd yn cynnwys agwedd gadarnhaol a rhagweithiol er mwyn gwneud yn siŵr fod gwesteion n cael yr holl wybodaeth angenrheidiol yn gyflym mewn modd croesawus a defnyddiol. Staff rhagweithiol yn dangos eu bod yn rhagweld holl anghenion gwestai.

Cyffyrddiadau Personol a Gwybodaeth i Ymwelwyr

Bydd asesu Cyffyrddiadau Personol a Gwybodaeth i Ymwelwyr yn ystyried y canlynol: Ystod ac ansawdd cyffyrddiadau personol ychwanegol, arteffactau, casgliadau, llyfrau. Darperir gwybodaeth i ymwelwyr ac mae ar gael i westeion.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Prin ddim gwybodaeth i ymwelwyr, taflenni treuliedig ac wedi dyddio ac ati. Ychydig iawn o dystiolaeth o gyffyrddiadau personol.
Lefel 2	Bydd taflenni a gwybodaeth yn gyfredol, ac wedi eu harddangos yn daclus ac yn gyfleus. Ystod gyfyngedig o wybodaeth, yn debygol o gynrychioli gwasanaethau neu atyniadau lleol yn unig. Ychydig iawn o gyffyrddiadau personol.
Lefel 3	Lefel dda o ddarpariaeth a fydd yn sicr yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am yr ardal a gwybodaeth gyfredol am gludiant cyhoeddus lleol /rhanbarthol. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth ynghylch hosteli rhwydweithiol mewn ardaloedd eraill sydd â threfniadau dwyochrog. Gwneir ymdrech amlwg i ddarparu awyrgylch croesawus a phersonol.
Lefel 4	Efallai y bydd gwybodaeth arbenigol yn cael ei darparu gan rai perchnogion neu staff Hosteli, argymhellion a chyngor ynghylch llwybrau cerdded/ dringo, amodau dringo cyfredol, llyfr sylwadau wedi'i gynnal yn dda ar gyfer gwesteion a hwnnw'n argymhell tafarnau / clybiau / bwyty / atyniadau lleol ac ati. Tystiolaeth amlwg o gyffyrddiadau personol – blodau, planhigion, casgliadau, arddangosiadau.
Lefel 5	Lefel ragorol o ddarpariaeth sydd, yn ogystal â'r arddangosiadau arferol o daflenni ac argymhellion ar gyfer marchnadoedd gweithgareddau awyr agored, yn aml yn cynnwys gwybodaeth leol a ddarparwyd yn bersonol. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys cyngor a gwybodaeth na chafodd ei gynhyrchu na'i ysgogi'n fasnachol ond sydd o ddiddordeb i westeion. Mae cyfleusterau ychwanegol i westeion, fel teledu, fideo, llyfrau, cylchgronau ac ati, yn debygol o fod ar gael.

3 GLANWEITHDRA YM MHOB MAES

Mannau Cyhoeddus

Bydd asesu glanweithdra'n cynnwys ystyried: safonau cadw tŷ ym mhob agwedd o'r manau cyhoeddus a bwyta.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Ystyrir y safonau a welir ar y lefel hon yn rhai sy'n debygol o fod yn dderbyniol fan leiaf i bob pwrpas a bydd angen eu gwella'n sylweddol ac yn systematig yn sicr os ydynt am barhau i gael dyfarniad pan gânt eu hasesu yn y dyfodol.
Lefel 2	Bydd y safon hon yn cynrychioli lefel Eithaf Da o lanweithdra, â rhai manau a ellid eu gwella mae'n debyg, ond lle nad oes unrhyw agwedd yn peri pryder.
Lefel 3	Safonau da o ran glanweithdra; rhoddir sylw rheolaidd i bob agwedd a chynhelir safonau cyson. Dull systematig â thystiolaeth fod safonau eglur yn cael eu gosod a'u monitro drwyddi draw.
Lefel 4	Safon Da Iawn yn gyffredinol a sylw manwl amlwg yn cael ei roi i fanylion yn y rhan fwyaf o feysydd ond heb gyrraedd safon Ardderchog ym mhob agwedd yn union.
Lefel 5	Dilychwin drwyddi draw ag agwedd broffesiynol a thrylwyredd manwl ym mhob agwedd. Rhoddir sylw arbennig i fanylion mewn perthynas â charpedi a llenni, lloriau sydd mewn manau a ddefnyddir yn aml, fel coridorau a grisiau. Arwynebau gloyw, dim staeniau na marciau, dim bylbiau wedi chwythu eu plwc na chyfarpar wedi torri. Rhoddir sylw gofalus a chyson i fanylion sy'n gymharol ddibwys hyd yn oed, ac o ganlyniad ceir safon sy'n ddi-fai i bob pwrpas.

Ystafelloedd Gwely

Bydd asesu glanweithdra'n cynnwys ystyried: safonau cadw tŷ ym mhob agwedd o ystafelloedd gwely, coridorau ystafelloedd gwely a grisiau ar lefelau uwch.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Safon 'derbyniol' o lanweithdra ond gall fod diffyg sylw mewn rhai manau h.y. y tu ôl i ddodrefn, sgertin, ffitiadau goleuo ac ati. Mae'r safonau a welir ar y lefel hon yn debygol o fod yn rhai derbyniol fan leiaf a bydd angen eu gwella'n sylweddol ac yn systematig yn sicr os ydynt am barhau i gael dyfarniad pan gânt eu hasesu yn y dyfodol.
Lefel 2	Bydd y safon hon yn cynrychioli glanweithdra ar lefel Eithaf Da, â rhai manau y gellid eu gwella mwy na thebyg, ond heb fod unrhyw agwedd yn peri pryder.
Lefel 3	Safonau glanweithdra da. Rhoddir sylw rheolaidd i bob agwedd a chynhelir safonau cyson. Agwedd systematig a thystiolaeth o safonau pendant yn cael eu gosod a'u monitro drwyddi draw.
Lefel 4	Safon Da Iawn yn gyffredinol a sylw manwl amlwg i fanylion yn y rhan fwyaf o feysydd ond heb gyrraedd safon Ardderchog ym mhopeth yn union.
Lefel 5	Dilychwin drwyddi draw ag agwedd broffesiynol a thrylwyredd manwl ym mhob agwedd. Gwelyau a dillad gwely mewn cyflwr da, arwynebau gloyw, dim staeniau na marciau, dim bylbiau wedi chwythu eu plwc na chyfarpar wedi torri. Rhoddir sylw gofalus a chyson i fanylion sy'n gymharol ddibwys hyd yn oed ac o ganlyniad ceir safon sy'n ddi-fai i bob pwrpas.

Ystafelloedd Ymolchi

Bydd asesu'r agwedd hon fel arfer yn cynnwys ystyried: safonau cadw tŷ ym mhob agwedd ar ystafelloedd ymolchi / cawod a thoiledau.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Safon 'derbyniol' o lanweithdra ond gall rhai mannau fod wedi eu hesgeuluso, y tu ôl i rai drysau neu dai bach neu riliau echdynnu ac ati. Mae safonau a welir ar y lefel hon yn debygol o fod yn rhai derbyniol fan leiaf i bob pwrpas a bydd angen eu gwella'n sylweddol ac yn systematig yn sicr os ydynt am barhau i gael dyfarniad pan gânt eu hasesu yn y dyfodol.
Lefel 2	Bydd y safon hon yn cynrychioli glanweithdra ar lefel Eithaf Da, â rhai mannau y gellid eu gwella mwy na thebyg, ond heb fod unrhyw agwedd yn peri pryder.
Lefel 3	Rhoddir sylw rheolaidd i bob agwedd a chynhelir safonau cyson. Agwedd systematig a thystiolaeth o safonau pendant yn cael eu gosod a'u monitro gydol yr adeg.
Lefel 4	Safon Da Iawn yn gyffredinol a sylw manwl amlwg i fanylion yn y rhan fwyaf o feysydd ond heb gyrraedd safon Ardderchog ym mhopeth yn union. Gall esgeulustra cymharol ddibwys fel rhai awyrellau echdynnu heb eu glanhau neu grotio wedi newid lliw mewn ambell fan wneud y gwahaniaeth rhwng safon 'Da Iawn' ac 'Ardderchog'.
Lefel 5	Dilychwin drwyddi draw ag agwedd broffesiynol a manylder trylwyr i'w weld ym mhob agwedd. Arwynebau gloyw, dim staeniau na marciau, dim bylbiau wedi chwythu eu plwc na chyfarpar wedi torri. Rhoddir sylw gofalus a chyson i fanylion sy'n gymharol ddibwys hyd yn oed ac o ganlyniad ceir safon sy'n ddi-fai i bob pwrpas.

Cegin Hunanarlwyo

Bydd asesu'r agwedd hon yn ystyried: safonau cadw tŷ ym mhob agwedd ar gyfleusterau ceginau hunanarlwyo.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Safon 'derbyniol' o lanweithdra ond gall fod angen mwy o sylw i rai mannau; bydd angen monitro'n ofalus y mannau storio a pharatoi bwyd yn benodol. Mae safonau a welir ar y lefel hon yn debygol o fod yn rhai sy'n dderbyniol fan leiaf i bob pwrpas ac mae bron yn sicr y bydd angen gwelliannau sylweddol a systematig os am barhau i gael dyfarniad ar asesiadau yn y dyfodol.
Lefel 2	Bydd y safon hon yn cynrychioli glanweithdra ar lefel Eithaf Da, â rhai mannau y gellid eu gwella, ond heb fod unrhyw agwedd yn peri pryder.
Lefel 3	Mae sylw rheolaidd yn cael ei roi i bob agwedd a chynhelir safonau cyson. Dull systematig, a thystiolaeth o safonau pendant yn cael eu gosod a'u monitro. Bydd y safon hon yn cynrychioli lefel sylfaenol dda o lanweithdra. Er o safon dda yn gyffredinol, efallai y byddwn yn argymhell sylw manylach i fanylion mewn rhai mannau, e.e. ffannau echdynnu, y tu mewn i boptai, rhewgelloedd, oddi mewn i ddroriau a chypyrddau neu o dan sinciau.

Lefel 4	Safon Da Iawn yn gyffredinol a sylw manwl amlwg yn cael ei roi i fanylion yn y rhan fwyaf o fannau ond heb gyrraedd safon Ardderchog ym mhob agwedd yn union. Gall esgeulustra cymharol ddibwys fel mannau anodd eu cyrraedd h.y. mannau y tu ôl i boptai neu mewn tryledwyr golau uwchben dynnu oddi wrth safon sy'n Ardderchog fel arall.
Lefel 5	Dilychwin drwyddi draw ag agwedd broffesiynol a thrylwyredd manwl yn amlwg ym mhob agwedd. Y safonau uchaf o lanweithdra ar bob arwyneb gan gynnwys gosodiadau cegin, y tu mewn i gypyrddau a droriau a'r holl gyfarpar trydanol. Dylai mannau storio sbwriel gael eu cadw'n lân hefyd a dylid symud sbwriel yn rheolaidd. Arwynebau gloyw, dim staeniau na marciau, dim bylbiau wedi chwythu eu plwc na chyfarpar wedi torri. Sylw gofalus a chyson i fanylion cymharol ddibwys hyd yn oed yn arwain at safon sy'n ddi-fai i bob pwrpas.

4 ANSAWDD BWYD A GWASANAETH

Caiff Ansawdd y Prydau, Brecwast a Chinio a'r Gwasanaeth ei asesu pan gynigir prydau fel graddfa 'holl gynhwysol' ac nid gwasanaeth hunan ddarpar yn unig neu pan godir tâl amdano ar wahân. Ni chaiff bwyd a ddarperir ac sydd ar gael i westeion fel cyfleuster rhad ac am ddim ar sail hunan ddarpar ei asesu.

Ansawdd y Bwyd – Brecwast

Caiff y Brecwast ei asesu ar sail y canlynol: Ansawdd ac amrywiaeth yr eitemau a gynigir. Safon y cyflwyno.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Amrywiaeth bach iawn a allai fod yn ddewis cyfandirol cyfyng. Cynnig eitemau 'arlwyo swmp' o ansawdd da yn eu pecynnau gwreiddiol.
Lefel 2	Amrywiaeth digonol o ddewisiadau cyfandirol, ond efallai heb gynnwys bwyd sydd wedi ei goginio.
Lefel 3	Amrywiaeth da o ddewis sydd yn debygol o gynnwys bwyd wedi ei goginio. Dewisiadau ar y fwydlen yn debygol o fod o ansawdd safonol ond yn arddangos ychydig iawn o ymdrech i ddarparu eitemau anghyffredin neu wedi eu cynhyrchu'n lleol.
Lefel 4	Amrywiaeth dda o ddewisiadau sydd yn cynnwys pryd llawn wedi ei goginio. Bydd yr holl ddewisiadau ar y fwydlen wedi eu paratoi yn dda, yn ddeniadol ac yn ffres.
Lefel 5	Amrywiaeth eang o ddewisiadau ar y fwydlen yn cynnwys amrywiaeth o rawnfwyd, brecwast poeth llawn a dewisiadau cyfandirol. Bydd y cynhwysion o ansawdd uchel a lle bo hynny'n bosibl neu'n addas, byddant wedi eu cynhyrchu'n lleol.

Ansawdd y Bwyd – Cinio

Caiff y Cinio ei asesu ar sail y canlynol: Ansawdd ac amrywiaeth yr eitemau a gynigir. Safon y cyflwyno.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Gall gynnwys un neu ddau gwrs yn unig heb unrhyw ddewis, a phrydau llysieuol ar gael trwy drefniant ymlaen llaw yn unig. Prydau a ddarparwyd ymlaen llaw a'u cynhesu ar y safle gydag ychydig iawn o ymdrech i'w cyflwyno'n ddeniadol, prydau bach, bwytdawd a digonol.
Lefel 2	Gall y prydau fod o ansawdd da ond y dewis ar y fwydlen a nifer y cyrsiau yn gyfyng. Gallai'r fwydlen arddangos defnydd helaeth o brydau wedi eu darparu ymlaen llaw a chynhwysion wedi eu rhewi.
Lefel 3	Dylai pryd tri chwrs fod ar gael ond yn arferol ni ddisgwylid dewis eang (er y dylai dewisiadau llysieuol fod ar gael wrth wneud cais amdanynt). Dylai'r holl seigiau fod wedi eu paratoi yn gymwys a'u cyflwyno'n ddeniadol.
Lefel 4	Amrywiaeth dda iawn o ddewisiadau ar y fwydlen, un ohonynt ar gyfer llysieuwyr. Bydd y cynhwysion o ansawdd uchel a lle bo hynny'n bosibl neu yn addas, wedi eu cynhyrchu'n lleol ac yn ffres. Bydd yr holl ddewisiadau wedi eu paratoi yn dda, yn ddeniadol ac yn ffres.

Lefel 5	Dylai pryd tri chwrs fod ar gael gydag amrywiaeth eang o ddewisiadau ar gyfer pob cwrs. Hefyd dylai amrywiaeth resymol o lysiau, tatws a salad fod ar gael.
----------------	---

Gwasanaeth Prydau

Caiff y gwasanaeth prydau ei asesu ar sail y canlynol: Effeithiolrwydd y gwasanaeth prydau, lefelau sgiliau proffesiynol addas, ergonomeg dylunio cyfleusterau hunan wasanaeth.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Mewn llety gyda gwasanaeth neu hunan-wasanaeth bydd staff yn ddymunol ac yn ymateb yn rhesymol a chymwynasgar i unrhyw gais. Bydd yr holl staff sydd yn ymwneud â'r gwasanaeth bwyd wedi eu gwisgo yn addas ar gyfer trafod a gweini bwyd.
Lefel 2	Staff gwasanaeth yn dangos peth sgil a diddordeb. Dylai fod digon o staff ar gael i wasanaethu wrth y byrddau ac i'w clirio fel bo angen. Dylai staff ddangos parodrwydd i helpu a bod yn gyfeillgar. Pan ddarperir prydau hunan-wasanaeth, gall yr amrywiaeth a'r dewisiadau ar y fwydlen newid yn unol â'r amseroedd pan fydd y gwasanaeth ar gael.
Lefel 3	Bydd y gwasanaeth yn gyfeillgar ac yn effeithlon bob amser. Dylai dyluniad a chynllun ergonomaid y cyfleusterau hunan-wasanaeth fod yn rhesymol effeithlon. Dylai staff fod â gwybodaeth resymol am y cynnyrch, yn enwedig o safbwynt addasrwydd neu anaddasrwydd eitemau ar y fwydlen ar gyfer llysiuwyd neu ofynion penodol a chyffredinol yn ymwneud â diet. Mewn sefyllfa hunan-wasanaeth, gellir cynnig y wybodaeth hon trwy gyfrwng arwyddion a gwybodaeth yn y pwynt gwasanaeth.
Lefel 4	Staff rhagweithiol a gwybodus gydag agwedd gyfeillgar a gofalgarg. Dylai staff fod â lefel uchel o wybodaeth am gynnyrch. Mewn sefyllfa hunan-wasanaeth, gellid sicrhau hyn yn rhannol trwy labelu'r bwyd a gynigir yn glir.
Lefel 5	Dylid cyflenwi'r gwasanaeth gan arddangos lefel resymol uchel o sgiliau rhagweithiol cyfeillgar a phroffesiynol. Dylai'r amrywiaeth lawn o ddewisiadau sydd ar y fwydlen fod ar gael gydol y gwasanaeth. Bydd dyluniad ergonomaid y cyfleusterau hunan-wasanaeth yn ardderchog.

5 MANNAU CYHOEDDUS (yn cynnwys pob grisiau, pen grisiau a choridor), a Man Bwyta/Bwyty

Addurn

Caiff yr agwedd hon yn arferol ei hasesu ar sail y canlynol: Pob gorchudd wal, gorffeniadau, darluniau, posteri ayb ar furiau a nenfydau'r manau cyhoeddus. Gyda/heb lolfa ymwelwyr, derbynfa, grisiau a phen grisiau sydd yn darparu mynediad at gyfleusterau a ddefnyddir yn gyffredinol.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Yr addurn sylfaenol efallai yn dangos rhywfaint o ôl traul, er ei fod yn parhau i fod o safon dderbyniol.
Lefel 2	Yr addurn o safon pur dda ond bod rhai manau angen sylw.
Lefel 3	Yr addurn o ansawdd da ac yn dangos ychydig iawn o ôl traul. Gall fod yn ymarferol ond yn edrych yn ffres ac wedi ei gadw'n dda, wedi ei addurno'n effeithiol trwy DIY ond heb y gorffeniad 'proffesiynol'. Yn debygol o gynnwys rhai darluniau, lluniau neu addurniadau eraill i harddu'r amgylchedd.
Lefel 4	Yr addurn drwyddo draw o ansawdd da iawn. Gall y gorffeniad fod yn weddol syml e.e emwlsiwn ond wedi ei gwblhau a'i gadw mewn cyflwr ardderchog. Gellid defnyddio darluniau / lluniau neu addurniadau eraill i wella'r cyflwyniad. Dylid cynnal safonau uchel ym mhobman yn y manau cyhoeddus. Nifer fach iawn o farciau na difrod gweladwy, os bydd rhai o gwbl.
Lefel 5	Addurn o safon uchel gyda defnydd doeth o liw, lluniau, printiau (e.e. golygfeydd lleol) ac addurniadau eraill. Nodweddion pensaernïol gwreiddiol wedi eu hadnewyddu neu eu cadw i safon ardderchog a'u defnyddio er creu'r effaith orau. Gall fod o natur defnyddiol ond mae nodweddion ychwanegol a chyflwr perffaith yn tanlinellu safon ardderchog. Lle defnyddir papur wal, bydd o safon uchel ac mewn cyflwr ardderchog heb unrhyw agoriad yn y semau ac heb ddangos unrhyw olion traul na difrod. Ar waliau plaen sydd wedi eu peintio, bydd y plastr yn llyfn neu bydd y waliau wedi eu gorchuddio'n gyntaf â bord plaster a'u sgimio a/neu eu leinio â phapur cyn eu paentio. Bydd y gwaith peintio mewn cyflwr ardderchog ac yn edrych yn wastad ac yn broffesiynol.

Dodrefn, Gosodiadau ac Ategiion

Caiff yr agweddau hyn eu hasesu'n arferol ar sail y canlynol: Ansawdd, amrywiaeth a chyflwr yr holl ddodrefn yn y manau cyhoeddus, yn cynnwys byrddau a chadeiriau bwyta, byrddau coffi / achlysurol, llenni. Gosodiadau golau a chyfarpar/offer cynhesu yn y manau hyn.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Efallai y bydd y dodrefn a'r atodiadau yn dangos ôl traul ond byddant er hynny mewn cyflwr defnyddiol, peth ôl traul yn amlwg ar rai darnau. Bleindiau / llenni ayb o bosibl heb leinin neu heb fod yn ffitio'n iawn. Y gosodiadau a'r offer cynhesu a goleuo efallai o ansawdd sylfaenol ac yn dangos peth ôl traul, ond yn ddiogel ac yn gweithio er hynny.
Lefel 2	Y dodrefn / atodiadau mewn cyflwr pur dda, o bosibl mai 'domestig' yw'r ansawdd a'u bod yn dangos peth ôl traul.

Lefel 3	Y dodrefn a'r atodiadau oll o safon dda, er bod eu hoedran a defnydd yn dechrau dangos peth ôl defnydd a thraul. Llenni neu fleindiau o ansawdd da, caeadau (os oes rhai) yn cael eu cynnal yn dda. Offer cynhesu a goleuo yn cael eu cynnal yn dda ac heb fod yn dangos olion rhwyd na staeniadau..
Lefel 4	Rhaid i'r dodrefn a'r atodiadau fod yn gysurus ac yn caniatáu digon o le i eistedd y nifer benodol o westeion. Y gosodiadau a'r offer goleuo a chynhesu / rheiddiaduron ayb o ansawdd da ac wedi eu cynnal i safon ardderchog.
Lefel 5	Y dodrefn i fod yn gysurus iawn a'u safon o ansawdd uchel iawn. Bwrdd bwyd a chadeiriau yn soled, yn gysurus iawn a digon o le ar gyfer pob cadair; uchder y bwrdd a'r cadeiriau i gydymffurfio â'i gilydd. Byddai meinciau eistedd yn ardderchog os ydynt o safon uchel ac yn ddigon mawr. Yn aml bydd clustogau yn clymu wrth seddau pren er mwyn eu gwneud yn fwy cysurus.

Gorchuddion Llawr

Caiff yr agwedd hon ei hasesu ar sail y canlynol: Gorffeniad y lloriau a'r gorchuddion yn y cyfan o'r manau eistedd, y dderbynfa a'r manau cyhoeddus. Grisau i'r llawr cyntaf a choridorau sydd yn darparu mynediad i gyfleusterau a ddefnyddir yn gyffredinol.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Gorchudd y llawr ar y cyfan mewn cyflwr derbyniol, rhywfaint o ôl traul i'w weld arno ond heb fod yn helaeth iawn. Gall fod o ansawdd cyffredin e.e. carped tenau cord gydag ychydig neu ddim isgarped. Gall fod yn llawr pren mewn cyflwr defnyddiol a diogel.
Lefel 2	Gorchudd llawr ar y cyfan mewn cyflwr ac / neu o ansawdd pur dda. Gall fod yn wreiddiol o ansawdd Da Iawn neu Ardderchog hyd yn oed, ond erbyn hyn yn dangos ôl traul neu wedi gwastatáu ac yn dangos rhai marciau. Gall fod o ansawdd cyffredin ond mewn cyflwr Da Iawn. Gellid ystyried y byddai gorchudd llawr finyl neu lawr coed mewn cyflwr rhesymol yn cydymffurfio â'r safon hon.
Lefel 3	O safon dda yn gyffredinol, efallai yn dangos peth ôl traul ond heb fod yn arwyddocaol, gall rhai lloriau fod yn well nag eraill ond bydd y cyfan wedi eu cynnal yn rhesymol dda.
Lefel 4	Gorchudd y lloriau o safon Dda Iawn ym mhob rhan o'r manau cyhoeddus. Gall y carpedi fod o ansawdd 'contract' da, wedi eu ffitio'n dda ac heb unrhyw farciau, ôl traul nac ôl difrod amlwg. Bydd lloriau pren wedi eu selio ac wedi eu cynnal yn dda.
Lefel 5	Gorchudd lloriau o safon Ardderchog ym mhobman, wedi eu ffitio yn broffesiynol, heb unrhyw arwyddion gwisgo na difrod ac yn gorwedd ar isgarped o ansawdd da. Gallai gorffeniadau eraill neu orffeniadau naturiol e.e. lloriau wedi eu lamineiddio, lloriau pren wedi eu sgleinio, fod o safon Ardderchog os byddant o ansawdd gynhenid uchel ac wedi eu cynnal yn dda.

Goleuo a Gwresogi

Yn arferol, caiff yr agweddau hyn eu hasesu ar sail y canlynol: Lefel, dosbarthiad, amrywiaeth a rheolaeth dros y goleuadau. Caiff gwresogi ei asesu ar wahân ac yna penderfynir ar farc cyfansawdd, ni fydd hwn o angenrheidrwydd yn gyfartaledd mathemategol. Er mwyn eglurder, mae'r agweddau hyn wedi eu trafod ar wahân yn y tablau a ganlyn:

Dangosyddion Ansawdd (Goleuo)

Lefel 1	Goleuo digonol ym mhob un o'r manau byw, yn cynnwys coridorau, grisiau a phen grisiau. Lefelau goleuo derbynol, o bosibl y watedd isaf a ddarperir.
Lefel 2	Lefel y golau yn bur dda, ond efallai heb gyrraedd pob rhan o'r ystafell. Pob bwlb, ag eithrio bylbau addurnol, i fod â chysgod neu orchudd addas. Mae'r golau yn debygol o fod yn ddigonol ar gyfer defnydd cyffredin ond heb fod yn addas ar gyfer tasgau neu ddigwyddiadau lle mae golau da yn hanfodol.
Lefel 3	Mwy nag un ffynhonnell goleuni er mwyn cael digon o olau ar gyfer pob diben ymarferol. Mannau bwyta wedi eu goleuo'n addas ac yn dda.
Lefel 4	Gall goleuni addas ym mhob rhan o'r ystafell olygu goleuadau ychwanegol (lampau bwrdd, lampau sefyll ayb). Efallai goleuadau y gellir eu rheoli yn unigol uwchben y man bwyta ayb.
Lefel 5	Trefn oleuo effeithiol o ansawdd uchel, yn rhoi golau digonol i bob rhan o'r ystafell ar gyfer unrhyw weithgaredd ymarferol. Bydd hyn yn cynnwys goleuadau ychwanegol ac achlysurol neu oleuadau tasg ar gyfer darllen / bwyta ayb. Gellir rheoli lefelau'r golau e.e. gyda switsus pylu ayb.

Dangosyddion Ansawdd (Gwresogi)

Lefel 1	Yn gyffredinol, y gwres yn ddigonol. Gall y gwres fod yn llai na digonol ar gyfer yr ystafell gyfan yn ystod cyfnodau oerach. Yn debygol o fod yn offer gwresogi gydag allbwn cyfyng neu wresogyddion yn sefyll yn unigol. Bydd tanau glo, gyda chyflenwad digonol o lo ar gael yn hwylus, hefyd yn dderbynol.
Lefel 2	Gwres ar gael ac yn effeithiol ond ar adegau penodol yn unig, megis gwresogyddion storio gwres dros nos sydd heb offer hybu neu system gwres canolog wedi ei amseru yn gyfyng.
Lefel 3	Lefel dda o wres yn cynnal tymheredd cefndirol cyfforddus ym mhob rhan o'r ystafell. Yn hollol effeithiol ac ar gael ar amseroedd addas. Gall fod yn fath mwy modern (h.y. mwy effeithiol) o wresogyddion storio gwres ond heb yr offer hybu, neu'n wres canolog gwlyb gyda rheolaeth ar y rhediad yn unig a rheiddiaduron bach yn dosbarthu gwres drwy'r ystafell gyfan. Lle bo hyn yn addas, gall stôf neu dân agored traddodiadol gynhyrchu neu ychwanegu gwres yn effeithiol iawn.
Lefel 4	Systemau gwresogi effeithiol ac ymatebol iawn ym mhob ystafell. Offer a rheiddiaduron wedi eu lleoli'n dda, ar gael ar unrhyw adeg rhesymol ac yn hawdd eu rheoli.
Lefel 5	System wresogi ymatebol, gyda darpariaeth argyfwng. Gallai fod yn wres canolog ar gael 24 awr ac o dan reolaeth thermostatig. Os darperir tanau glo, bydd yn ofynnol i gyflenwad hael o danwydd fod ar gael ar gyfer y gwesteion.

Pa mor eang, Cysurus a Hawdd ei ddefnyddio

Yn arferol, caiff yr agwedd hon ei hasesu ar sail y canlynol: Ehangder, cynllun, cysur ac awyrgylch gartrefol mewn perthynas â lefelau defnydd arferol. Yn gyffredinol, disgwylir i'r gofod fod yn llai mewn sefydliadau yng nghanol dinasoedd nag yn y rhai a geir mewn ardaloedd mwy gwledig ac anghysbell.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Gofod cyfyng, ychydig o amrywiaeth ac ychydig o fannau eistedd ar gael. Amgylchedd derbyniol heb lefelau uchel o sŵn, mwg ayb. yn aflonyddu arno.
Lefel 2	Yn gyffredinol, safon Pur Dda a allai olygu ystafell(oedd) sydd wedi eu gosod allan yn dda ond nad ydynt mewn gwirionedd yn ddigon mawr ar gyfer y defnydd a wneir ohonynt. Gallent fod yn ystafell(oedd) sydd yn cynnwys digon o fannau eistedd ar gyfer defnydd cyffredin ond ar draul lle i symud o gwmpas yn rhesymol rydd a chyfforddus. Gall awyrgylch a chysur ddiodef os bydd cegin/man bwyta/ lolfa wedi eu cyfuno mewn ystafell weddol fach.
Lefel 3	Ystafelloedd o faint da gyda digon o le i symud o gwmpas yn rhydd. Dylai ystafelloedd fod o faint digonol ac wedi eu dodrefnu ar gyfer defnydd cymedrol. Bydd lolfeydd yn fwy cysurus os byddant wedi eu lleoli ar wahân i geginau / mannau bwyta.
Lefel 4	Safon Da Iawn yn gyffredinol, sef amrywiaeth o ystafelloedd yn cyrraedd safon rhwng 'Da' ac 'Ardderchog'. Gallai fod o faint Ardderchog gydag amrywiaeth lawn o ddodrefn ond y rhain wedi eu gosod allan yn ffurfiol a hyn yn effeithio ar awyrgylch yr ystafell.
Lefel 5	Ystafell wedi ei chynllunio'n dda ac yn gysurus iawn ar gyfer yr holl ddefnyddwyr, dodrefn / setiau teledu / goleuadau oll wedi eu lleoli mewn mannau addas a chyfleus. Dylai nifer digonol o gadeiriau, y rhai wrth y bwrdd bwyd a'r rhai cysurus, fod ar gael ar gyfer cyfran sylweddol o'r nifer uchaf o westeion. Mae cyfran 'sylweddol' yn debygol o fod yn llai mewn lleoliad trefol lle mae defnydd wedi ei gyfyngu, o gymharu â lleoliad gwledig lle gwneir defnydd llawn o'r adnoddau.

6 YSTAFELLOEDD GWELY

Addurn

Caiff yr agwedd hon ei hasesu ar sail y canlynol: Pob gorchudd wal a gorffeniad, darluniau, posteri, borderi ayb ar holl waliau a nenfydau'r ystafelloedd gwely.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Yr addurn o ansawdd sylfaenol ac yn dangos peth ôl traul, er ei fod at ei gilydd yn parhau o safon derbyniol.
Lefel 2	Addurn Pur Dda er bod rhai mannau o bosibl angen sylw.
Lefel 3	Addurn o ansawdd da heb ddangos fawr ddim ôl traul. Gall fod yn ymarferol ond yn edrych yn ffres ac wedi ei gynnal yn dda, gwaith DIY wedi ei gwblhau yn effeithiol ond heb y gorffeniad 'proffesiynol'.
Lefel 4	Safon Dda Iawn ym mhobman. Gall y gorffeniad fod yn weddol syml e.e. emwlsion ond wedi ei osod a'i gynnal mewn cyflwr ardderchog. Gellid defnyddio darluniau, lluniau neu waith celf arall er mwyn gwella'r edrychiad. Dylid cynnal safonau uchel yn yr holl fannau cyhoeddus. Ychydig iawn o farciau neu ôl traul gweladwy, os oes rhai o gwbl.
Lefel 5	Addurn o ansawdd uchel gyda defnydd ystyrion o liw, darluniau, posteri neu themâu. Gall fod yn gynhenid ymarferol ei natur ond bydd nodweddion ychwanegol yn dynodi safon Ardderchog. Bydd arwyneb waliau moel sydd wedi eu peintio wedi ei orffen gyda phlastr neu fwrdd plaster ac yna ei sgimio neu ei leinio gyda phapur cyn ei beintio. Bydd y gwaith paent mewn cyflwr Ardderchog, wedi ei gwblhau yn wastad ac yn broffesiynol.

Dodrefn, Gosodiadau, a Llenni ayb

Yn arferol, caiff y nodweddion hyn eu hasesu trwy ystyried amrywiaeth, ansawdd a chyflwr holl ddodrefn yr ystafelloedd gwely, cadeiriau, loceri, silffoedd, cypyrddau hongian dillad, llenni, gosodiadau/offer goleuo a chynhesu.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	O safbwynt adnoddau storio, yn debygol o gynnwys bachau yn unig, a rhywfaint o silffoedd. Gall y dodrefn a'r gosodiadau fod ag ôl traul arnynt ond maent yn parhau i fod mewn cyflwr defnyddiol. Bleindiau/llenni ayb o ansawdd sylfaenol, o bosibl heb leinin neu heb fod yn ffitio'n iawn. Gosodiadau golau o ansawdd sylfaenol e.e. tiwbiau fflwrolau. Bydd offer cynhesu yn ddiogel ac yn gweithio ond o bosibl yn dangos marciau rhwyd neu niwed i'r gorffeniad..
Lefel 2	Dodrefn / gosodiadau mewn cyflwr Pur Dda, o bosibl o ansawdd 'domestig', ychydig yn unig o ôl traul. Bydd loceri, os darperir rhai, o bosibl yn unedau metel, yn null yr hen loceri 'diwydiannol' gydag ôl traul/niwed yn amlwg. Gallai dodrefn fod o ansawdd da ac mewn cyflwr da ond nifer fach ohonynt.
Level 3	Gall y dodrefn fod o ansawdd cyffredin sef y math a brynir mewn pecynnau a'u gosod wrth ei gilydd gartref. Bydd llenni neu fleindiau o ansawdd da ac yn ffitio'n iawn neu gaeadau mewn cyflwr da yn addas. Gosodiadau ac offer gwresogi o ansawdd da ond yn dangos rhywfaint o farciau neu ôl traul.

Lefel 4	Gall loceri, lle darperir rhai, fod yn gabinetau gweddol newydd o goed/metel mewn cyflwr Da Iawn, neu unedau pren o ansawdd gwell. Llenni ayb yn cydfynd yn dda. Gosodiadau golau a gwresogi mewn cyflwr Ardderchog. Digon o ofod ar gyfer hongian a storio dillad.
Lefel 5	Dodrefn o ansawdd uchel, wedi eu llunio'n unigol gan grefftwy'r i safon Ardderchog, neu gallent fod yn rhai masnachol o'r un ansawdd. Bydd loceri, lle darperir rhai, yn debygol o fod yn unedau pren o ansawdd uchel ac yn cydfynd â gweddill y dodrefn yn yr ystafell. Mae'n debygol y bydd dodrefn achlysurol eraill yn yr ystafell e.e cadeiriau esmwyth, byrddau ayb. Dodrefn meddal o ansawdd uchel ac yn cydlynu. Llenni / bleindiau o ansawdd Ardderchog, yn aml wedi eu leinio'n llawn gyda deunydd thermal / di-draidd. Bydd cyfarpar/gosodiadau gwresogi a goleuo o ansawdd a chyflwr cyffelyb sef Ardderchog.

Gorchudd Llawr

Caiff yr agwedd hon ei hasesu ar sail y canlynol: Gorffeniad a gorchuddion y lloriau mewn ystafelloedd gwely, pennau grisiau, grisiau a choridorau ar loriau uwch.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Gorchudd y lloriau mewn cyflwr derbynol – peth ôl traul ond dim llawr.
Lefel 2	Gorchudd y lloriau mewn cyflwr a /neu o ansawdd Pur Dda. Gall fod o ansawdd cynhenid Da Iawn neu hyd yn oed Ardderchog ond erbyn hyn yn dangos peth ôl traul. Dylai lloriau finyl neu bren fod mewn cyflwr rhesymol.
Lefel 3	Gorchudd y lloriau o safon da yn gyffredinol. Gall rhai carpedi fod yn well na'i gilydd ond bydd y cyfan wedi eu gosod yn rhesymol dda. Bydd lloriau pren yn ddiogel ac wedi eu gorffen yn addas (gyda farnais, wedi eu selio ayb).
Lefel 4	Gorchudd y lloriau o safon Da Iawn ym mhob rhan o'r ystafelloedd gwely. Gall y carpedi fod o ansawdd 'contract' Da Iawn ac wedi eu ffitio'n dda ac heb farciau, ôl traul nag ôl difrod amlwg. Bydd lloriau pren wedi eu gorffen a'u diogelu'n dda.
Lefel 5	Gorchudd y lloriau ym mhobman o safon Ardderchog, carpedi wedi eu ffitio'n dda ac heb ôl traul nag ôl difrod amlwg, gydag isgarped o ansawdd Da. Gall fod yn garped dolennog o ansawdd uwch, llawr wedi ei lamineiddio neu lawr pren gyda gorffeniad o ansawdd uchel ac mewn cyflwr da gyda matiau ychwanegol wrth y gwelyau neu sgwariau o garped.

Goleuo a Gwresogi

Yn arferol caiff yr agweddau hyn eu hasesu ar sail y canlynol: Lefel, dosbarthiad ac amrywiaeth y ddarpariaeth oleuo. Offer gwresogi â y ddarpariaeth a rheolaeth drosti.

Dangosyddion Ansawdd (Goleuo)

Lefel 1	Gall un golau crog fod yn addas yn y brif ystafell wely.
Lefel 2	Lefelau goleuo Pur Dda, yn ddigonol ar gyfer mwyafrif y dibenion ymarferol. Yr holl fylbiau, heblaw'r rhai addurnol, i fod â gorchudd/ gysgod addas. Goleuadau fflwrolau gyda thryledwyr.
Lefel 3	Golau digonol yn cyrraedd pob rhan o'r ystafell. Gall gynnwys golau wrth ochr gwely.

Lefel 4	Darpariaeth pur effeithiol o oleuni o ansawdd uchel yn cyrraedd pob rhan o'r ystafell, dylai hyn gynnwys golau wrth y gwely ar gyfer pob person mewn rhai ystafelloedd a rhywfaint o oleuni achlysurol neu oleuni tasg lle bod hynny'n addas.
Lefel 5	Darpariaeth goleuo effeithiol o ansawdd uchel yn rhoi goleuni digonol a hawdd ei reoli i bob rhan o'r ystafell e.e. golau tasg wrth y basnau llaw, silffoedd a drych yn hwylus a golau achlysurol lle bo hynny'n addas. Gall hefyd gynnwys goleuadau nos o watedd isel.
Dangosyddion Ansawdd (Gwresogi)	
Lefel 1	Dylai'r gwresogi fod yn addas ac yn effeithiol ar gyfer yr holl ystafell yn ystod y cyfnodau oer. Dylai rhyw fath o wresogydd cludadwy fod ar gael ar gyfer y misoedd oer os nad oes gwresogyddion wedi eu gosod ar y waliau.
Lefel 2	Gwres ar gael ond ar adegau penodol yn unig e.e. yr hen fathau o wresogyddion storio gwres dros nos neu wres canolog wedi ei amseru a'i gyfyngu. Gwresogyddion bach cludadwy yn dangos ôl traul neu ddifrod.
Lefel 3	System wresogi effeithiol yn cynnal tymheredd da yn y cefndir, yn effeithiol ac ar gael pan fydd ei angen. Gall fod yn fath mwy modern (h.y. yn fwy effeithlon) sydd yn storio gwres ond heb adnoddau hybu neu'n system hylif lle gellir rheoli'r llif yn unig a rheiddiaduron o faint a chryfder addas ar gyfer yr ystafell.
Lefel 4	Gwresogyddion sefydlog, yn ymateb yn llawn i anghenion y cwsmer, wedi eu lleoli'n addas.
Lefel 5	Ffynhonnell gwres sydd yn ymatebol ac o dan reolaeth thermostat nm yr holl ystafelloedd. Ar gael 24 awr y dydd e.e. gwres canolog gyda falfiau thermostatig unigol. Gall fod yn system lle cyfunir gwresogi / awyru neu system aerdymheru.

Gwelyau a Dillad Gwely

Yn arferol caiff yr agweddau hyn eu hasesu ar sail y canlynol: Gwelyau Bync, Gwelyau, Llwyfannau Alpaidd, fframiau, gwaelodau a matresi. Duvet, gorchuddion duvet, blancedi, cynfasau, bagiau cysgu lliain, gobenyddion a gorchuddion gobennydd.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Gwelyau a gwelyau bync yn soled ac heb fod yn symud, mynediad diogel i'r gwelyau bync uchaf. Gwelyau i fod o ansawdd derbynol – gall rhai fod yn dangos peth ôl traul ond yn parhau mewn cyflwr defnyddiol. Rhai marciau, ôl difrod neu draul ar orffeniad ffrâm neu waelod rhai gwelyau / gwelyau bync. Gwelyau cul (lled 2' 6") yn parhau i gael eu defnyddio. Amrywiaeth ddigonol o ddillad gwely a chynfasau yn cynnwys blancedi / duvet a chynfasau neu fagiau cysgu lliain. Disgwylid gorchudd diogelu ar y matresi a'r gorchuddion gobennydd.
Lefel 2	Yn gyffredinol, gwelyau / gwelyau gwelyau bync neu lwyfannau cysgu i safon Pur Dda, rhai o'r math hyn a mwy sylfaenol ac yn dangos peth ôl traul. Dillad gwely /bagiau cysgu lliain yn lân ac wedi eu gosod yn daclus. Rhifau tog ar y duvet, lle darperir hwy, yn addas ar gyfer yr hinsawdd.

Lefel 3	Fframiau gwelyau a gwelyau bync o ansawdd da a matresi caled. Gallant fod yn fatresi mandyllog o ansawdd uchel, ond gyda sbrings mewnol yn fwy addas. Dillad gwely ayb mewn cyflwr da ac wedi eu gosod yn daclus, dylai gobenyddion fod yn drwchus ac o ansawdd da gyda gorchuddion diogelu ar y gobenyddion a'r matresi.
Lefel 4	Mwyafrif, os nad y cyfan o'r gwelyau a'r gwelyau bync i fod yn llawn faint (h.y. 3' neu 4' 6" o led) ac mewn cyflwr Da Iawn, fel arfer gyda matresi sbring dwfn. Dillad gwely a gobenyddion mewn cyflwr Da Iawn. Gall y dillad gwely fod yn cydlynu gyda'r llenni a nodweddion dodrefnu meddal eraill.
Lefel 5	Gwelyau o'r ansawdd Gorau (gall yn aml fod o ansawdd masnachol) gwelyau a gwelyau bync llawn maint (3' neu 4' 6") gyda matresi sbring dwfn. Dillad gwely/bagiau cysgu lliain yn cydlynu ac newydd eu landro. Duvets o ansawdd uchel neu flancedi trwchus a rhai wrth gefn.

Pa Mor Eang, Cysurus a Hawdd Eu Defnyddio

Fel arfer caiff yr agwedd hon ei hasesu ar sail y canlynol: Pa mor ddigonol yw'r gofod, cynllun, mynediad at unedau storio, rheolaeth goleuadau a gwres. Yn ychwanegol, wrth asesu'r agwedd hon, rhoddir ystyriaeth i effaith (negyddol neu bositif) dodrefn ychwanegol, ystafelloedd cul neu ar ffurf anghyfleus a mynediad at y gwelyau.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Ystafelloedd gwely o faint digonol ar gyfer nifer y gwelyau. Ychydig o ofod ar gyfer storio a symud o gwmpas yn rhydd. Gall mynediad at ffenestri ac adnoddau rheoli gwres a golau fod wedi ei gyfyngu.
Lefel 2	Ar y cyfan, safon Pur Dda o safbwynt maint a chynllun yr ystafell. Gall rhai ystafelloedd fod o safon Da Iawn ond eraill yn fwy cyfyng. Er bod gofynion gofod digonol wedi eu cyrraedd, mae'n debygol y bydd y nifer fwyaf bosibl o welyau wedi eu gosod yn yr ystafell a bod hyn yn effeithio ar gysur gwsteion.
Lefel 3	Ystafelloedd gwely o faint digonol gyda digon o le i symud o gwmpas yn rhydd, mynediad hawdd at ffenestri ac adnoddau rheoli gwres a golau. Gall rhai ystafelloedd gwely fod ychydig yn llai, ond wedi eu cynllunio'n dda. Rhai nenfydau ar oleddf ond nid dros fwyafrif gofod y llawr. Gall yr ystafelloedd gwely fod o faint Da Iawn ond heb unrhyw ddodrefn ychwanegol.
Lefel 4	Ystafelloedd o faint Da Iawn gyda digonedd o le a dim rhwystr o ran mynediad at y ffenestri, socedi trydan nac adnoddau rheoli gwres. Yn debygol o fod â rhai eitemau o ddodrefn ychwanegol er mwyn ychwanegu at gysur y gwsteion wrth ddefnyddio'r ystafell.
Lefel 5	Ystafelloedd gwely eang ac wedi eu gosod allan yn dda gyda phwyslais clir ar gysur a hwylustod y gwsteion. Yn y sefydliadau o'r safon uchaf, gellir disgwyl i rai (ond nid y cyfan) o'r ystafelloedd gwely fod wedi eu dodrefnu'n dda, er enghraifft yn cynnwys loceri, manau trefnus ar gyfer storio, byrddau achlysurol a byrddau wrth y gwelyau, a chadeiriau esmwyth. Gellir disgwyl 50% uwchlaw isafswm y gofod llawr a nodir yn y meini prawf.

7 YSTAFELLOEDD YMOLCHI A THOILEDAU

Addurn

Yn arferol, caiff yr agwedd hon ei hasesu ar sail y canlynol: Pob gorchudd wal a gorffeniad, darluniau, posteri, borderi ayb ar yr holl waliau a nenfydau yn yr ystafelloedd ymolchi / cawod a thoiledau.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Yr addurn mewn cyflwr derbyniol, ambell addurn yn hen neu wedi ei ddifrodi ac yn dangos olion traul, peth paent yn codi ond yn dderbyniol ar y cyfan.
Lefel 2	Ansawdd a chyflwr yr addurn yn Bur Dda ond gall ddangos rhywfaint o ôl traul.
Lefel 3	Addurn o ansawdd Da heb fawr o ôl traul. Yn ymarferol ond yn edrych yn ffres ac wedi ei gadw'n dda. Gwaith DIY wedi ei gwblhau'n effeithiol ond heb y gorffeniad 'proffesiynol'. Bydd y teils yn gyfan ym mhobman ond efallai heb fod fel newydd.
Lefel 4	Safon yr addurn yn Dda Iawn trwyddo. Gall fod yn orffeniad gweddol syml, e.e. emwlsiwn neu baent ystafell ymolchi ond wedi ei osod a'i gadw mewn cyflwr Ardderchog. Llawer o deils ac o safon Da Iawn ym mhobman. Yr un safon wedi ei chynnal ym mhob rhan o'r adran hon. Ychydig iawn, os bydd rhai o gwbl, o farciau nag ôl traul amlwg.
Lefel 5	Yr ansawdd a'r cyflwr yn Ardderchog. Gall waliau'r ystafell ymolchi fod wedi eu leinio' n growt) mewn cyflwr Ardderchog.

Dodrefn a Gosodiadau Ystafell Ymolchi a Chyfarpar Iechydol

Yn arferol, bydd asesiad o'r agwedd hon yn cynnwys: Pob uned cawod, â chyfarpar iechydol, gwaelod cawodydd, ciwbiclau cawodydd, llenni / drysau cawodydd, silffoedd, drychau, llenni / bleindiau ystafelloedd. Bachau dillad, rheiliau tyweli, dysglau sebon, biniau gwastraff, basnau ymolchi a thapiau. Gosodiadau a chyfarpar goleuo a chynhesu.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Gosodiadau a chyfarpar braidd y hen ond yn dal mewn cyflwr defnyddiol. Dylai cyflenwad rhesymol o ddŵr poeth fod ar gael bob amser.
Lefel 2	Gosodiadau a chyfarpar a ddarperir yn cyrraedd safon pur dda, gall y basnau llaw fod braidd yn fach a phennau cawodydd a'u gwaelod o safon sylfaenol. Dylai'r holl osodiadau fod yn gweithio'n iawn, yn hawdd eu defnyddio ac yn ymatebol. Dylai cyflenwad rhesymol o ddŵr poeth fod ar gael bob amser. Gall gosodiadau a chyfarpar goleuo a chynhesu ddangos peth ôl traul.
Lefel 3	Cawodydd effeithiol gyda systemau rheoli tymheredd effeithiol, basnau o faint safonol ac mewn cyflwr da. Gwaelod serameg/teils llawr ar y cawodydd a'u maint /ansawdd yn safonol. Cyfarpar gwresogi a goleuo wedi eu cynnal yn dda. Llenni cawod o ansawdd da ac yn edrych yn ffres neu ddrysau pwrpasol ar yr uned.
Lefel 4	Gosodiadau a chyfarpar o ansawdd Da Iawn. Cawodydd gyda llif cryf ac yn hawdd ei reoli. Gwaelod y cawodydd o serameg neu ddr di-staen a'u maint yn helaeth. Llenni ar y cawodydd o ansawdd da ac mewn cyflwr Da Iawn. Cylchoedd / rheiliau tyweli a bachau o ansawdd uchel ac heb fod yn dangos dim ôl traul.
Lefel 5	Bydd ystafelloedd ymolchi yn cydlynu'n dda ac wedi eu dylunio'n ofalus. Dylai'r cyfleusterau fod yn Ardderchog ar y cyfan, a'r holl gyfarpar iechydol yn cyd-fynd. Bydd yr holl ategion, llenni / bleindiau ayb. yn dangos cyflwr ac ansawdd Ardderchog hefyd.

Gorchuddion Lloriau

Yn arferol, bydd yr agwedd hon yn cynnwys asesiad o'r canlynol: Gorffeniad a gorchuddion y lloriau yn yr holl ystafelloedd ymolchi / cawodydd a thoiledau.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Gorchudd llawr ymarferol, domestig a dilithr mewn cyflwr derbyniol. Dylai'r holl loriau fod wedi eu paratoi a'u selio'n dda.
Lefel 2	Safon yn gyffredinol yn Bur Dda. Gall fod o ansawdd cyffredin ond mewn cyflwr Da Iawn. Gall y gorchudd llawr ddangos peth ôl traul ond bydd yn gyfan ac yn ddiogel. Gall fod o ansawdd uwch ond heb fod wedi ei ffitio yn dda ac erbyn hyn yn dangos ôl traul.
Lefel 3	Gorchudd llawr o ansawdd a safon da ac mewn cyflwr da. Yr ymylon wedi eu selio ac felly hefyd y semau.
Lefel 4	Gorchudd llawr ystafell ymolchi o ansawdd uchel, wedi ei ffitio'n dda ac mewn cyflwr Da Iawn. Gall fod o ansawdd Ardderchog yn wreiddiol ond heb fod bellach yn edrych fel newydd.
Lefel 5	Gorchudd llawr dilithr o ansawdd contract neu deils llawr o ansawdd uchel, wedi eu ffitio yn broffesiynol ac mewn cyflwr Ardderchog.

Goleuo, Gwresogi ac Awyru

Yn arferol bydd yr agweddau hyn yn cynnwys asesiad ar sail y canlynol: Lefel a dosbarthiad y ddarpariaeth oleuo. Cyfarpar gwresogi a lefel y ddarpariaeth / rheolaeth. Effeithiolrwydd y systemau awyru / echdynnu a'r modd y cânt eu cynnal.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Watedd digonol yn cynnig lefelau derbyniol o oleuni. Awyru yn bosibl e.e. gall fod trwy ffenestr yn agor yn unig. Ychydig neu ddim darpariaeth gynhesu effeithiol.
Lefel 2	Goleuni canolog ond dim neu ychydig iawn o oleuni uwchben y basn ymolchi neu'r drych. Fel arfer, rhywfaint o awyru mecanyddol. Rhywfaint o wres ar gael o fewn yr ystafelloedd ymolchi.
Lefel 3	Darpariaeth goleuo ac awyru effeithiol ym mhob rhan, yn am gyda goleuadau eillio / socedau ychwanegol. System awyru fecanyddol effeithiol sydd yn addas ar gyfer maint yr ystafell. System wresogi sydd yn cynnal tymheredd cyson, effeithiol ac ar gael pan fydd ei angen.
Lefel 4	Goleuadau wedi eu lleoli'n dda ac yn effeithiol ar gyfer pob pwrpas, rhai goleuadau y gellir eu gosod ar amser. Bydd y systemau awyru yn effeithiol ac yn cynnal awyrgylch ffres yn gydol yr amser pan ddefnyddir yr ystafelloedd. Darpariaeth wresogi effeithiol ac yn un y gellir ei rheoli e.e. gwres canolog gyda falfiau thermostatig unigol.
Lefel 5	System oleuo o ansawdd uchel gyda goleuadau unigol ym mhob ciwbicl cawod a thoiled, goleuadau eillio a socedau. Gall y system awyru gynnwys echdynnwyr unigol uwchben pob ciwbicl cawod, o bosibl wedi eu cysylltu â sensor lleithder / symudiad, ffan a / neu ddyfais amseru. Gwres hollol effeithiol y gellir ei reoli ac sydd ar gael 24 awr.

Pa mor Eang, Cysurus a Hawdd eu Defnyddio

Yn arferol, caiff yr agwedd hon ei hasesu ar sail y canlynol: Ehangder, cynllun, pa mor hawdd ei ddefnyddio a pha mor breifat yw.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Cyfleusterau o faint digonol ond efallai braidd yn gyfyng mewn manau. Angen ystyried preifatrwydd gwesteion wrth iddynt newid neu ymsychu.
Lefel 2	Gofod yn gyffredinol yn bur dda, gall rhai cyfleusterau fod yn gyfyng braidd ac eraill yn well. Ciwbiclau o faint safonol. Y manau newid a'r cyfleusterau braidd yn gyfyng pan fydd nifer o westeion yn eu defnyddio.
Lefel 3	Ystafelloedd ymolchi o faint da, ciwbiclau cawod o faint da, lle digonol ar gyfer newid, gosodiadau a chyfarpar wedi eu lleoli'n dda ar gyfer eu defnyddio'n hwylus.
Lefel 4	Ar y cyfan, y safon yn Dda Iawn – mewn llawer o ganolfannau bydd hyn yn golygu cymysgedd o adnoddau Ardderchog ac eraill heb fod cystal ac o safon 'dda'.
Lefel 5	Cyfleusterau o faint hael ac wedi eu cynllunio'n dda. Ciwbiclau cawod o faint a chynllun fydd yn rhoi preifatrwydd i westeion newid mewn lle sych o fewn y ciwbicl, heb ddefnyddio gwaelod y gawod. Dylai basnau ymolchi fod wedi eu gosod lle gellir eu defnyddio'n hawdd ar adegau prysur.

8 CEGIN HUNAN-DDARPAR

Addurn a Gorchudd Llawr

Yn arferol, bydd asesiad o'r agweddau hyn yn cynnwys y canlynol: Pob gorchudd wal, gorffeniad a gorchudd llawr.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Addurn o ansawdd derbyniol, peth ôl traul yn amlwg h.y. o gwmpas y man coginio, er bod y safon yn gyffredinol yn ddigonol. Gall peth ôl traul fod yn amlwg mewn mannau lle bydd defnydd trwm ond heblaw am hynny mewn cyflwr derbyniol.
Lefel 2	Addurn a gorchudd llawr ar y cyfan o safon Pur Dda, efallai bod peth ôl traul ond nid yw'n sylweddol.
Lefel 3	Addurn o ansawdd da gydag ychydig iawn o ôl traul. Gall fod yn ymarferol ond yn edrych yn ffres ac yn cael ei gynnal yn dda. Teils, growt a'r sêl i fod mewn cyflwr da a glân. Gorchudd llawr o ansawdd finyl domestig neu deils, y cyfan mewn cyflwr da.
Lefel 4	Addurn ym mhob rhan o'r gegin o safon Dda Iawn gydag ychydig iawn o wendidau neu feiau bach yn ei rhwystro rhag cyrraedd safon Ardderchog. Gorchudd y lloriau yn debygol o fod o safon domestig Da Iawn, heb unrhyw farc nag ôl traul ac wedi ei osod yn broffesiynol.
Lefel 5	Addurn i fod o ansawdd uchel ac yn fuddiol ac ystyriaeth wedi ei roi i ymarferoldeb ac edrychiad. Yn debygol o gynnwys rhai gosodiadau o ansawdd masnachol gan ddefnyddio dur di-staen a bordiau addas ar y waliau. Gorchudd llawr i fod o safon Ardderchog drwyddo, gall fod o ansawdd contract trwm a di-lithr.

Systemau Goleuo, Gwresogi ac Awyru

Yn arferol caiff yr agweddau hyn eu hasesu ar sail y canlynol: Lefel a dosbarthiad y ddarpariaeth oleuo. Cyfarpar gwresogi a lefel y ddarpariaeth / rheolaeth. Effeithiolrwydd y systemau awyru / echdynnu a'r modd y cânt eu cynnal.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Goleuadau digonol yn y prif rannau, dylai goleuadau fflworolau unigol fod â gorchuddion arnynt. Dim awyriad mecanyddol ar gael e.e. gall fod yn ffenestr sy'n agor yn unig. Dim neu fawr ddim darpariaeth wresogi effeithiol.
Lefel 2	Watedd digonol ond gall hyn olygu nad yw rhai mannau wedi eu goleuo'n ddigonol. Dylai tiwbiau fflworolau fod â thryledwyr arnynt. Dim neu fawr ddim awyru mecanyddol effeithiol.
Lefel 3	Yr holl fannau gweithio wedi eu goleuo yn rhesymol dda. Awyru effeithiol, trwy ddefnyddio ffan echdynnu neu ffenestr yn agor. Lefelau addas o wres.
Lefel 4	Goleuadau effeithiol yn cyrraedd pob rhan o'r ystafell. Dylai ceginau fod wedi eu hawyru'n dda; yn arferol, bydd offer echdynnu a golau uwchben y stôf. Gwres dan reolaeth thermostat.
Lefel 5	Safon uchel o oleuni, golau tasg di-gysgod uwchben arwynebau gweithio, hob a stôf (e.e. golau o dan yr unedau). System awyru Ardderchog, ceginau mwy yn debygol o gynnwys systemau echdynnu masnachol.

Dodrefn a Gosodiadau

Yn arferol, bydd yr agweddau hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: Yr holl ddodrefn cegin, unedau gosod, silffoedd, manau storio sych, byrddau ayb. Gosodiadau a chyfarpar goleuo a chynhesu, llenni / bleindiau.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Gall dodrefn a gosodiadau fod yn dangos peth ôl traul ond yn dal mewn cyflwr defnyddiol. Gall fod yn silffoedd agored gydag arwynebau gweithio uwch eu pennau, neu hen unedau domestig. Gall arwynebau gweithio ddangos ôl traul, ac wedi gwisgo mewn manau.
Lefel 2	Yn gyffredinol, dodrefn cegin o safon Pur Dda. Gall yr unedau gosod fod o ansawdd safonol domestig yn arddangos ôl defnyddio sylweddol.
Lefel 3	Y dodrefn o safon dda, o bosibl o ansawdd domestig ond mewn cyflwr da ac yn dangos ychydig yn unig o ôl traul. Gallant fod o wneuthuriad DIY ond wedi eu gosod i safon Dda Iawn. Oddi mewn i gypyrddau a droriau a silffoedd mewnol mewn cyflwr da gydag ychydig yn unig o ôl traul neu ddifrod.
Lefel 4	Safon Dda Iawn ym mhobman, caiff hyn ei adlewyrchu o bosibl gan unedau sefydlog o ansawdd safonol, y cyfan mewn cyflwr Ardderchog. Ychydig iawn, os bydd rhywfaint, o ôl traul neu ddifrod.
Lefel 5	Dodrefn a gosodiadau o ansawdd uchel, gallant fod wedi eu llunio gan grefftwyr i safon Ardderchog, neu'n osodiadau o ansawdd masnachol neu ansawdd domestig o safon uwch na'r arferol. Gall unedau fod heb ddrysau neu gyda drysau. Bydd ceginau sydd wedi eu darparu i'r safon hon yn cynnwys arwynebau gweithio /paratoi bwyd a silffoedd o ddu di-staen.

Y Stôf a'r Cyfarpar Trydanol

Yn arferol, caiff yr agweddau hyn eu hasesu ar sail y canlynol: Offer coginio yn cynnwys poptai meicrodon, griliau, hob a phoptai confensiynol. Nwyddau 'gwyn' yn cynnwys oergell, rhewgell, tegell, tostiwr a boeler dŵr.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Offer wedi ei ddefnyddio'n helaeth ond yn ymarferol ac mewn cyflwr diogel. Amrywiaeth sylfaenol o offer e.e. oergell braidd yn fach ar gyfer nifer y gwasteion a letyir. Pob stôf a hob wedi eu gosod yn gywir ac yn ddiogel i'w defnyddio ond o bosibl yn dangos rhywfaint o ôl traul.
Lefel 2	Yr offer ar y cyfan o safon Pur Dda sydd yn adlewyrchu o bosibl amrywiaeth sylweddol yn ansawdd / cyflwr y gwahanol eitemau. Yr offer yn debygol o fod o ansawdd domestig yn dangos peth ôl traul a difrod.
Lefel 3	Gall yr offer ddangos peth ôl traul ond nid llawer gan ei fod yn gyffredinol mewn cyflwr da. Oddi mewn i'r oergell yn gyfan, pob sêl yn gyfan ac yn effeithiol. Stôf a hob yn aml o ansawdd domestig safonol ond mewn cyflwr Da Iawn. Gall fod yn gyfarpar ail law / gyn gyfarpar arlwyio mewn cyflwr da.
Lefel 4	Safon yn gyffredinol yn Dda Iawn – nid yn Ardderchog gan fod amrywiaeth y cyfarpar yn gyfyng neu bod rhai eitemau unigol yn amlwg o safon is. Bydd digon o le yn yr oergell ar gyfer nifer y gwasteion a letyir a darpariaeth eglur ar gyfer cadw gwahanol fwydydd ar wahân yn unol â rheolau hylendid

Lefel 5	Pob stôf a hob o faint llawn ac o ansawdd domestig, neu, yn aml, o ansawdd arlwyo masnachol, y cyfan mewn cyflwr Ardderchog. Amrywiaeth eang o gyfarpar trydanol o ansawdd uchel, y cyfan mewn cyflwr Ardderchog. Gall gynnwys eitemau 'moethus' fel offer tostio brechdan, hylifydd, peiriant coffi ayb. Yn arferol disgwylir rhewgell. Yn debygol (mewn eiddo o faint yn enwedig) o gynnwys o leiaf rhai eitemau o ansawdd masnachol e.e. boeler dŵr neu dostiwr.
----------------	---

Llestri, Cylyll a Ffyrac a Llestri Coginio

Yn arferol, caiff yr agweddau hyn eu hasesu ar sail y canlynol: Yr holl sosbenni a phadelli, offer coginio, cylyll a ffyrac, gwydrau.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Cymysgedd eang o lestri ac offer, yn dangos peth ôl traul. Yr arwyneb ar y sosbenni wedi ei grafu neu ei ddifrodi, offer alwminiwm yn ocsideiddio, rhai dyrnau wedi llosgi neu wisgo.
Lefel 2	Ar y cyfan yn rhydd oddi wrth ddifrod neu olion traul sylweddol. Argymhellir cynnwys rhai eitemau ar gyfer arlwyfaeth swmp os darperir ar gyfer grwpiau.
Lefel 3	Offer a llestri i fod mewn cyflwr da ac yn ddigonol ar gyfer gosod y bwrdd i'r nifer priodol.
Lefel 4	Amrywiaeth Dda Iawn o gyllyll a ffyrac, llestri a gwydrau ar gael. Amrywiaeth llawn o gyfarpar, y cyfan mewn cyflwr Da Iawn.
Lefel 5	Amrywiaeth estynedig o offer a llestri a gwydrau, y cyfan mewn cyflwr Ardderchog, fel arfer y tu hwnt i'r isafswm gofynion. Gellir cynnwys eitemau ychwanegol e.e. amrywiaeth o eitemau addas ar gyfer meicrodon neu gasgliad o gyllyll arbenigol.

Pa mor Eang, Cysurus a Hawdd ei ddefnyddio

Yn arferol, caiff yr agwedd hon ei hasesu ar sail y canlynol: Ehangder, cynllun, cynllun ergonomaid. Lefel y ddarpariaeth a'r ehangder ar gyfer lefel y defnydd.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Gofod digonol ar gyfer gweithio a storio. Gall fod braidd yn gyfyng ar gyfer lefel defnydd arferol a'r cynllun ergonomaid yn wael.
Lefel 2	Maint a chynllun y gegin yn Bur Dda er y gallai gofod fod braidd yn brin ar gyfnodau prysur iawn. Darpariaeth o arwynebau ar gyfer gweithio a pharatoi bwyd yn ddigonol ond heb fod yn hael.
Lefel 3	Gofod digonol ar gyfer paratoi bwyd a choginio, addas ar gyfer nifer y gwesteion a letyir ac ar gyfer defnydd arferol. Digon o socedi trydan wedi eu lleoli'n dda. Dylid darparu gofod storio unigol ar gyfer cyfran helaeth o'r gwesteion.
Lefel 4	Maint a chynllun y gegin a'r manau paratoi bwyd yn Dda Iawn. Gall fod braidd yn gyfyng ar gyfer cyfnodau prysur, o'i gymharu â safon Ardderchog, ond nid i'r graddau lle gallai achosi anhwylystod mawr.
Lefel 5	Dylai'r gegin fod wedi ei dylunio'n ergonomaid gan adael digon o le i'r holl westeion allu symud o gwmpas yn rhwydd a gweithio'n ddirwystr. Mewn ceginau mwy, argymhellir manau paratoi bwyd unigol. Yn y safon hwn, ni ddisgwylid i ran o'r gegin gael ei defnyddio fel ystafell fwyta.

9 CYFLEUSTERAU ERAILL (Os yn berthnasol - gweler tudalen 7, eitem 9).

Ystafelloedd golchi a sychu

Yn arferol, caiff yr agweddau hyn eu hasesu ar sail y canlynol: Ansawdd y cyfleusterau, yr adnoddau a'r cyfarpar, y modd y cânt eu cynnal a glanweithdra.

Dangosyddion Ansawdd

Lefel 1	Cyfarpar masnachol neu ddomestig, yn hen ac yn dangos olion traul. Gofod storio a hongian ar gyfer yr holl ddefnyddwyr posibl yn brin. Ystafell sychu gydag isafswm y ddarpariaeth hongian dillad a phrin ddigon ar gyfer sychu offer a dillad. Gall y safon hon hefyd adlewyrchu sefyllfa lle mae adnodd da yn cael ei ddefnyddio fel man storio ar draul y defnydd cywir ohono neu fel cyfleuster sy'n ddefnyddiol ond yn rhy fach.
Lefel 2	Cyfleusterau glan a thaclus, efallai braidd yn sylfaenol neu heb gynnig darpariaeth lawn, ond ar y cyfan o safon Pur Dda.
Lefel 3	Cyfleusterau o faint da ar gyfer nifer y gwesteion. Offer domestig neu fasnachol safonol, o bosibl yn dangos arwyddion traul, ond ar y cyfan mewn cyflwr da. Yr ystafell sychu yn cynnwys cyfleusterau hongian /rheilau, a rhesel esgidiau trymion. Bydd yr ystafell sychu yn cynnwys cyfarpar effeithiol y gellir ei reoli, ac a fydd yn sicrhau y gellir sychu dillad ac offer o fewn amser rhesymol (e.e. dros nos) o dan amgylchiadau cyffredin.
Lefel 4	Bydd cyfleusterau golchi a sychu wedi eu dylunio'n dda, yn eang ac wedi eu darparu i safon uchel. O safbwynt y golchi, bydd yn ofynnol darparu peiriannau masnachol yn gweithio ar ddarnau arian neu docynnau. Dylai fod digon o gyfarpar i gwrdd ag anghenion arferol y gwesteion. O safbwynt yr ystafell sychu, cyrhaeddir y safon hon fel arfer trwy osod cyfleusterau sydd yn cynnwys adnoddau sychu cyfansawdd a systemau sychu effeithiol iawn. Llwyddir i wneud hyn trwy gyfuniad o ddadleithyddion, gwres cefndirol ac awyriad. Bydd y ddau gyfleuster yn cael eu cynnal yn dda ac yn dangos safon glendid Ardderchog.
Lefel 5	Bydd safon Ardderchog yn amlwg yn y manau hyn gan amlaf oherwydd yr amrywiaeth eang o gyfarpar o ansawdd uchel, yn cynnwys sychwyr, offer smwddio, byrddau smwddio, basgedi dillad ayb yn ogystal â chwrrd â holl ddisgwyliadau safon 'Da Iawn'.

Cyfleusterau Hamdden / Ychwanegol

Dangosyddion Ansawdd

Yn arferol, caiff yr agwedd hon ei hasesu ar sail unrhyw gyfleusterau hamdden ychwanegol a ddarperir ar gyfer gwesteion. Gall hyn gynnwys, er enghraifft yn unig: Ansawdd, amrywiaeth a chyflwr cyfleusterau ychwanegol megis: bwrdd pŵl, peiriannau chwaraeon, mynediad i'r rhyngwyd, tenis bwrdd, llyfrgell, siop, ystafell chwaraeon, caffî rhyngwyd, cyfleusterau hamdden, darpariaeth storio cyfarpar arbenigol fel canŵiau / beiciau / offer dringo.

GOFYNION CYFLEUSTERAU SY'N BERTHNASOL I HOLL LEFELAU MARCIAU SEREN

Darllenwch yr adran hon gan gyfeirio at y broses dau gam sydd i'w dilyn er mwyn ennill gradd Seren, fel yr eglurir ar dudalennau 4 a 5.

GOFYNION CYFFREDINOL – AR GYFER HOSTELI, LLETY I BACPACWYR, GRWPYAU A GWEITHGAREDDAU

Isafswm Gofynion Derbyn	
1.1	Rheolwyr i ufuddhau i 'Côd Ymddygiad' Croeso Cymru.
1.2	Darparu cyfleusterau hunan-ddarpar. Gellir gwneud eithriadau i ofynion ceginau hunan-ddarpar Croeso Cymru yn achos sefydliadau sydd yn cynnig arlwyath lawn, neu mewn hosteli trefol yn unig, lle darperir arlwyath a gwasanaeth llawn ar gyfer brecwast a phryd nos. Caiff y sefydliadau hyn eu heithrio. Fodd bynnag, mae hyn ar amod bod prinder hysbysebion ar gyfer adnoddau hunan-ddarpar mewn deunyddiau marchnata e.e. gwefannau a thafenni. Dylai sefydliadau bwyta eraill, rhesymol eu prisiau, fod ar gael o fewn cyrraedd ar droed. Caiff darpariaeth ar gyfer cysgu nifer fwy na 100 ei benderfynu yn unol â doethineb Croeso Cymru.
1.3	Mannau eistedd a manau bwyta i fod ar gael ynghyd â dodrefn addas. Mae cyfleusterau yn cyfuno bwyta / eistedd / cegin yn dderbyniol hyd at safon 4 Seren. Ar gyfer safon 5 Seren, bydd yn ofynnol darparu man eistedd, ar wahân i'r cegin (unai ystafell arall neu ofod ychwanegol) gyda seddau cysurus.
1.4	Darpariaeth ar gyfer hongian a sychu dillad gwlyb i fod ar gael.
1.5	Digon o socedau trydan i fod ar gael ac wedi eu lleoli'n addas i alluogi gwesteion i ddefnyddio offer trydanol yn ddiogel (e.e. sychwyr gwallt, gwefrwyr ffonau symudol ayb).
	<i>(Yn unol â doethineb Croeso Cymru gellir gwneud eithriadau yn achos sefydliadau anghysbell sydd heb wasanaethau prif gyflenwad neu wasanaethau cyfyngedig).</i>
1.6	Yr holl fannau cyhoeddus i fod wedi eu goleuo'n ddigonol ar gyfer diogelwch a lles y gwesteion.
1.7	Manylion am y modd i alw cymorth, ddydd neu nos, mewn achos o argyfwng, i gael eu darparu a'u harddangos yn glir ar gyfer gwesteion (e.e., staff / perchennog, meddyg, deintydd, ayb). Manylion am y gwasanaethau brys (h.y. 999) i gael eu harddangos.
1.8	Offer cymorth cyntaf i fod ar gael yn hawdd ac yn cynnwys yr eitemau angenrheidiol.
1.9	Rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer sicrhau diogelwch gwesteion a'u heiddo h.y. allwedd neu fynediad wedi ei reoli i'r brif fynedfa fan leiaf.
1.10	Yr holl ffenestri ar y llawr gwaelod i gael dyfais gau effeithiol sydd yn rhwystro'u hagar o'r tu allan.
1.11	Os cymerir archebion oddi wrth grwpiau, mae'n rhaid i nifer y llestri, cyllyll a ffyrc a dodrefn ystafell fwyta fod yn ddigonol ar gyfer galluogi uchafswm nifer y grŵp i eistedd a chyd-fwyta.
1.12	Yr holl rannau i gael eu glanhau a'u gwirio yn ddyddiol er mwyn sicrhau safon uchel o lanweithdra.
1.13	Lle gweinir bwyd, rhaid i pob bwyd fod wedi ei goginio'n gywir a'i baratoi'n ofalus.

Ystafelloedd gwely / Mannau cysgu

Isafswm Gofynion Derbyn	
2.01	<p>Isafswm y gofod i'w ddarparu ar gyfer pob gwely(neu wely bync) fydd 4 medr sgwâr (44 troedfedd sgwâr) e.e. 2 fedr x 2 fedr. Cyfrifir y gofod hwn ar sail mesuriadau yr ystafell wedi eu rhannu gyda nifer y gwelyau yn yr ystafell. Cyfrifir gwelyau fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwely bync – 1 • Gwely sengl – 1 • Gwely dwbl – 2 <p>Nid yw effaith dodrefn (loceri, byrddau wrth y gwelyau ayb) wedi ei ystyried yn y cyfrifiad hwn. Fodd bynnag, dylid cydnabod na fydd ystafelloedd nad ydynt ond prin gyrraedd neu fymryn uwchlaw isafswm y gofynion yn debygol o ennill marciau uchel yn yr asesiad ansawdd 'Pa mor Eang a Chysurus'.</p>
2.02	Y nenfwd i fod o leiaf 2 fedr (6' 7") o uchder. Mae bondo neu nenfydau ar rediad yn dderbyniol, cyn belled nad ydynt yn atal symud yn rhesymol rydd trwy fwyafrif yr ystafell.
2.03	Yr holl ystafelloedd gwely i fod â ffenestr yn agor allan er mwyn sicrhau golau naturiol ac awyriad i'r ystafell. Yr holl ffenestri i fod â llenni trwchus neu fleinds er mwyn preifatrwydd ac i gadw'r golau allan.
2.04	Ystafelloedd gwely i gael eu goleuo'n ddigonol er mwyn diogelwch a lles y gwesteion.
2.05	Pob eiddo i allu cynnig manau cysgu ar wahân i ddynion a merched. Os nad yw'r ddarpariaeth hon ar gael, dylid nodi hynny wrth y gwesteion pan fyddant yn archebu llety.
2.06	<p>Mae'n rhaid i welyau / gofod ar gyfer gwelyau fod o leiaf yn 1.9m (6' 3") x 0.76m (2' 6") gan gynnwys llwyfannau alpaidd).</p> <p>Noder: Mae gwelyau maint llawn (6' 3" x 3') yn ofynnol ar gyfer safon 5 Seren.</p>
2.07	Rhaid darparu ystafelloedd gwely gyda gwelyau neu welyau bync a matresi mewn cyflwr da. Gwelyau i fod â gwaelodau mewn cyflwr da. Mae llwyfannau alpaidd gyda mat cysgu mandyllog yn dderbyniol hyd at safon 1 Seren yn unig.
2.08	Rhaid i'r pellter fertigol rhwng y gwely uchaf a'r isaf mewn unrhyw wely bync fod o leiaf 0.75m (30").
2.09	Pob ystafell wely i fod â gofod storio digonol ar gyfer bagiau cefn. Fan leiaf gellid darparu digon o ofod rhydd ar y llawr neu o dan y gwely / bync.
2.10	Pob ystafell wely i fod â bin gwastraff anfflamadwy.
2.11	Ystafelloedd gwely i fod â bachau ar gyfer hongian dillad (o leiaf un i bob gwestai).
2.12	Blancedi neu duvets a dillad gwely glan yn cynnwys un gobennydd a gorchudd gobennydd i bob person. Byddai ymarfer gorau yn awgrymu newid y cyfan o'r dillad gwely / duvets a gorchuddion gobennydd ar ôl pob gwestai.
2.13	Dillad gwely i fod ar gael unai yn rhad ac am ddim neu i'w llogi.
	<i>(Yn unol â doethineb Croeso Cymru gellir gwneud eithriad yn achos sefydliadau anghysbell heb lawr / heb ddim prif wasanaethau. Mewn achosion o'r fath, dylid nodi hynny'n glir).</i>

Cegin / Man Bwyta**Isafswm Gofynion Derbyn**

Gellir gwneud eithriadau i ofynion ceginau hunan-ddarpar Croeso Cymru yn achos sefydliadau sydd yn cynnig arlwyath lawn, neu mewn hosteli trefol yn unig, lle darperir arlwyath a gwasanaeth llawn ar gyfer brecwast a phryd nos. Caiff y sefydliadau hyn eu heithrio. Fodd bynnag, mae hyn ar amod bod prinder hysbysebion ar gyfer adnoddau hunan-ddarpar mewn deunyddiau marchnata e.e. gwefannau a thafleuni. Dylai sefydliadau bwyta eraill, rhesymol eu prisiau, fod ar gael o fewn cyrraedd ar droed. Caiff darpariaeth ar gyfer cysgu nifer fwy na 100 ei benderfynu yn unol â doethineb Croeso Cymru.

3.01	Rhaid dynodi'r gegin yn fan dim ysmegu trwy gyfrwng arwyddion pwrpasol.
3.02	Rhaid gosod larwm mwg neu ddatguddiwr gwres.
3.03	Rhaid darparu diffoddwr tân sy'n addas ar gyfer tanau mewn ceginau ac hefyd blanced dân.
3.04	Y gegin i gynnwys y nifer perthnasol o offer (sosbenni, llestri, dysglau, cyllyll paratoi bwyd ayb), sydd yn galluogi o leiaf 20% o gyfanswm nifer y gwesteion i baratoi bwyd ar yr un pryd.
3.05	Rhaid darparu o leiaf 4 cylch coginio. Argymhellir darparu cylch ychwanegol ar gyfer pob 8 gofod gwely ychwanegol os yw cyfanswm nifer y gwelyau yn fwy na 32. I.e.: 32 gwely: 4 cylch coginio. 40 gwely: 5 cylch coginio. 48 gwely: 6 cylch coginio. 56 gwely: 7 cylch coginio etc, etc.
3.06	Rhaid darparu popty neu bopty microdon a gradell. Darperir y rhai hyn ar raddfa (isafswm) 1 i bob 50 gwestai a letyir.
3.07	Lle darperir cyfarpar trydanol ychwanegol, rhaid i nifer digonol o socedau trydanol fod ar gael.
3.08	Rhaid darparu llestri a chyllyll a ffyrc fel bod digon o amrywiaeth a nifer ar gyfer caniatáu i o leiaf 25% o'r gwesteion i fwyta yr un pryd.
3.09	Rhaid i ofod digonol fod ar gael ar gyfer storio bwyd yn oer.
3.10	Rhaid darparu cyfleusterau ar gyfer berwi dŵr, e.e. tegell neu foeler.
3.11	Rhaid darparu cyfleusterau storio bwyd sych, yn addas ar gyfer y nifer o westeion a letyir, e.e. silffoedd agored neu gypyrddau.
3.12	Rhaid i'r gegin fod â dull awyru effeithiol.
3.13	Rhaid darparu bin gwastraff gyda chaead a bagiau ar ei chyfer.
3.14	Cyfleusterau golchi llestri digonol i fod ar gael gyda dŵr oer a phoeth o'r tap a hylif golchi llestri.
3.15	Arwyneb gweithio hylan i fod ar gael.

Ystafelloedd Ymolchi

Isafswm Gofynion Derbyn	
4.01	<p>Rhaid i nifer y cawodydd, basnau ymolchi a thoiledau a darperir ar gyfer gwesteion gwrdd neu fynd y tu hwnt i'r lefelau hyn:</p> <p>1 Seren: 1:15 2 Seren: 1:15 3 Seren: 1:10 4 Seren: 1:8 5 Seren: 1:6</p> <p>N.B. Ni fydd cyfleusterau y tu allan yn dderbyniol heblaw yn achos 1 Seren. Ni chaiff cyfleusterau en-suite eu cynnwys wrth gyfrifo'r cymarebau hyn.</p> <p>Mae'r cymarebau hyn ar gyfer y 400 man cysgu cyntaf; wedi hynny, bydd Croeso Cymru yn penderfynu ar y ddarpariaeth yn dilyn trafodaeth gyda'r perchennog. Golyga hyn y bydd y canlynol yn weithredol, er enghraifft.</p> <p><i>(Gwneir eithriadau i'r isafswm gofynion hyn yn ôl doethineb Croeso Cymru yn achos sefydliadau anghysbell gydag ychydig neu ddim prif wasanaethau).</i></p>
4.02	Rhaid sicrhau preifatrwydd i ddynion a merched ar gyfer ymolchi / cymryd cawod a defnyddio toiled a lle bo hynny'n bosibl, rhwng aelodau o'r un rhyw. Pob cawod a man newid i fod â llenni / bleinds didraidd er mwyn preifatrwydd.
4.03	Pob ystafell ymolchi, cawod a thoiled i fod wedi ei awyru'n dda.
4.04	Mae'n ofynnol darparu sebon ac adnoddau sychu dwylo ym mhob toiled.
4.05	Pob toiled i fod â chaead a daliwr papur toiled, papur toiled a bin gwastraff iechydol (lle bo hynny'n addas).
4.06	Cyfleusterau bath / cawod i gynnwys bachau ym mhob ciwbicl ar gyfer hongian dillad.
4.07	Rhaid darparu silff a phwynt trydan ar gyfer eillio (neu addasydd) gyda drych wrth law.

Llety i Grwpiau –

Yn ychwanegol at yr holl feini prawf ar gyfer 'Hosteli', mae meini prawf sylfaenol 'Llety i Grwpiau' hefyd yn cynnwys y canlynol:

Isafswm Gofynion Derbyn	
5.1	Yn arferol, derbynnir archebion gan grwpiau yn unig.
5.2	Mae'n rhaid i'r man bwyta fod â gofod a dodrefn digonol ar gyfer uchafswm nifer y gwesteion fydd yn bwyta ar yr un pryd.
5.3	Mae'n rhaid i nifer y cawodydd, basnau ymolchi a thoiledau ar gyfer y gofod gwelyau gwrdd â'r lefelau sylfaenol neu fod y tu hwnt iddynt: 1 Seren: 1:15 2 Seren: 1:12 3 Seren: 1:10 4 Seren: 1:8 5 Seren: 1:6 <i>(Gwneir eithriadau i'r isafswm gofynion hyn yn ôl doethineb Croeso Cymru yn achos sefydliadau anghysbell gydag ychydig neu ddim prif wasanaethau).</i>
5.4	Llestri, cyllyll a ffyrc, gwydrau, offer paratoi ac offer coginio bwyd i'w darparu ar gyfer uchafswm nifer y gwesteion fydd yn bwyta ar yr un adeg.
5.5	Offer coginio (sosbenni, padelli ayb) i gynnwys amrywiaeth o offer arlwy o faint addas.
5.6	Darparu ystafell sychu benodol o faint addas. Dylai maint a chynllun yr ystafell sychu fod yn addas ar gyfer grwpiau.
5.7	Cyfleusterau ar gyfer storio offer i fod ar gael.

Llety Gweithgareddau -

Yn ychwanegol at y meini prawf uchod ar gyfer 'Hosteli' a 'Llety Grwpiau', bydd y canlynol hefyd yn ofynnol ar gyfer Llety Gweithgareddau.

Dynodi Llety Gweithgareddau

Yn ychwanegol at y meini prawf uchod ar gyfer 'Hosteli' a 'Llety Grwpiau', bydd yn ofynnol hefyd i sefydliadau 'Llety Gweithgareddau' feddu ar Dystysgrif gyfredol yr AALA neu gorff cenedlaethol arall yn ymwneud ag un neu ragor o weithgareddau awyr agored yr ymgymerir â hwy yn y ganolfan.

NODER: 'Ni fydd yn ofynnol i 'Llety Grwpiau' na 'Llety Gweithgareddau' ddarparu adnoddau hunan-ddarpar os mai pecyn gwasanaeth llawn (Cinio, Gwely a Brecwast) yw'r hyn a gynigir yn arferol. Os na ddarperir cinio ganol dydd, yna dylai cyfleusterau ar gyfer darparu pecynnau bwyd fod ar gael i westeion.

GOFYNION CYFFREDINOL – LLETY Tŷ BYNCIAU

Cyfleusterau

Isafswm Gofynion	
1.1	Rhaid i ddŵr poeth ac oer fod ar gael o'r tap.
1.2	Cyflenwad trydan ar gael (gall Croeso Cymru wneud eithriadau os yw canolfannau yn anghysbell ac ychydig neu ddim prif wasanaethau ar gael).
1.3	Yr holl fannau cyhoeddus / ystafelloedd ymolchi / ystafelloedd gwely i fod wedi eu goleuo'n ddigonol ar gyfer diogelwch.
1.4	Dylid darparu gwres digonol, ar lefel sylfaenol, yn y manau cyhoeddus.
1.5	Darperir cyfleusterau hunan-ddarpar.
1.6	Blwch cymorth cyntaf cyflawn i fod ar gael.
1.7	Rhaid darparu manylion ar gyfer gwesteion am y modd y gellir galw am gymorth, ddydd neu nos, mewn achos o argyfwng (e.e., staff/perchennog, meddyg, deintydd, ayb). <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid cynnwys manylion y gwasanaethau brys (h.y. 999).
1.8	Rhaid i ddarpariaeth fod ar gael ar gyfer hongian dillad awyr agored fydd wedi eu gwlychu.
1.9	Dylai darpariaeth resymol fod ar gael ar gyfer diogelu'r adeilad o'r tu mewn ac o'r tu allan.
1.10	Rhaid cynnal a chadw pob rhan o'r eiddo yn ddigonol.
1.11	Rhaid cynnal safon uchel o lanweithdra ym mhob rhan o'r eiddo.

Ystafelloedd Gwely / Mannau Cysgu

Isafswm Gofynion	
2.01	Ystafelloedd gwely neu fannau cysgu i fod yn ffisegol ar wahân i'r gegin / man bwyta / manau cyhoeddus
2.02	Yr holl fannau cysgu i fod ag o leiaf un ffenestr allanol er mwyn awyru a goleuo'r ystafelloedd. Rhaid darparu llenni, bleindiau neu debyg.
2.03	Isafswm gofod llawr i'w ddarparu ar gyfer pob gwely neu wely bync fydd 4 metr sgwâr (44 troedfedd sgwâr). Caiff yr arwynebedd hwn ei gyfrifo ar sail mesuriadau'r ystafell wedi eu rhannu gyda nifer y gwaelodau gwelyau yn yr ystafell. Caiff gwaelodau gwelyau eu cyfrif fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • Gwely bync – 1 • Gwely Sengl – 1 • Gwely Dwbl – 2 • Llwyfannau Alpaidd – 1 i bob gofod gwely (o leiaf 6' x 2' 6") <p>Ni chaiff effaith dodrefn (loceri, byrddau ochr gwely, ayb) eu hystyried wrth gyfrifo'r niferoedd hyn.</p>
2.04	Rhaid i bob darpariaeth cysgu fod unai yn wely, bync neu lwyfan alpaidd a'i faint yn 6' x 2' 6" o leiaf – a'r un mesur ar gyfer pob person ar lwyfan. Rhaid darparu matres gyda phob gwely a bync. Bydd matiau mandyllog yn dderbyniol ar lwyfannau alpaidd.

2.05	Os darperir dillad gwely neu fagiau cysgu lliain, bydd yn rhaid darparu un gobennydd a digon o blancedi neu duvets ar gyfer pob gwestai, unai yn rhad ac am ddim neu i'w llogi. Os na ellir darparu hyn, rhaid hysbysu'r gwesteion pan fyddant yn archebu lle, a nodi'r ffaith yn eglur yn y llawlyfrau / ar y gwefannau.
2.06	Gofod digonol ar gyfer bagiau cefn i fod ar gael yn y manau cysgu. Fel darpariaeth sylfaenol, gellir darparu hyn trwy neilltuo lle rhydd ar y llawr neu o dan y gwely / bync.

Cegin / Mannau Bwyta

Isafswm Gofynion

3.01	<p>Dylai'r gegin fod o faint digonol fel y gall cyfran resymol o'r holl westeion baratoi a choginio prydau yr un pryd. Argymhellir bod o leiaf y nifer canlynol o gyfleusterau / offer coginio ar gael:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Man storio / paratoi bwyd / offer coginio ac ardal o gwmpas y sinc yn hylan gyda dŵr poeth ac oer o'r tap bob amser. • Rhaid darparu o leiaf 4 cylch coginio. Os bydd cyfanswm y manau cysgu yn uwch na 32, rhaid darparu cylch coginio ychwanegol ar gyfer pob 8 gofod gwely pellach. <p>i.e: 32 gwely: 4 cylch coginio 40 gwely: 5 cylch coginio. 48 gwely: 6 cylch coginio. 56 gwely: 7 cylch coginio. ayb.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid darparu gofod digonol ar gyfer storio bwyd mewn oergell. <p>Y gegin i gynnwys nifer digonol o offer(sosbenni, dysglau, cyllyll paratoi bwyd ayb).</p>
3.02	Y man bwyta i gynnwys dodrefn addas. Dylai'r fan hon gynnwys cyfleusterau digonol (dodrefn, llestri, cyllyll a ffyrc ayb) fel y gall o leiaf 20% o'r gwesteion fwyta yr un adeg. Os cymerir archebion gan grwpiau, dylid cynyddu'r ddarpariaeth hon fel bod yr holl westeion yn gallu cyd-fwyta.
3.03	Rhaid gosod larwm tân a'i gynnal fel ei fod bob amser yn gweithio'n iawn.
3.04	Rhaid darparu diffoddwr tân a blanced tân i ddiogelu rhag tanau yn y gegin.
3.05	Rhaid dynodi ardal y gegin yn ardal 'dim ysmegu' ac arddangos arwyddion pwrpasol.

Ystafell Ymolchi

Isafswm Gofynion

4.01	<p>Rhaid i nifer y cawodydd, basnau ymolchi a thoiledau ar gyfer y gofod gwelyau gwrdd ag isafswm y gofynion, neu fod y tu hwnt iddynt:</p> <p>1 Seren: 1:15 2 Seren: 1:12 3 Seren: 1:10 4 Seren: 1:8 5 Seren: 1:6</p> <p>(Gwneir eithriadau i'r isafswm gofynion hyn yn ôl doethineb Croeso Cymru yn achos sefydliadau anghysbell gydag ychydig neu ddim prif wasanaethau).</p>
4.02	Yr holl doiledau i fod â chyflenwad o bapur toiled, bagiau iechydol(lle bo hynny'n addas) a biniau.
4.03	Rhaid sicrhau preifatrwydd i ddynion a merched wrth iddynt ddefnyddio'r cyfleusterau ymolchi a'r gawod.

GOFYNION CYFFREDINOL – LLETY YSGUBOR GWERSYLLA

Adeiladwaith

Isafswm Gofynion	
1.1	Rhaid i'r adeilad fod yn gadarn ei adeiladwaith, a gallu gwrthsefyll gwynt a glaw. Nid yw adeiladau nad ydynt yn rhai parhaol, e.e. siediau pren neu garafannau gwyliau yn dderbyniol.
1.2	Yr holl adeilad i gael ei lanhau yn drwyadl ac yn rheolaidd.
1.3	Rhaid gofalu bod pob rhan o'r adeilad wedi ei awyru'n ddigonol.
1.4	Rhaid i bob wal fewnol, nenfwd a gorffeniad llawr fod mewn cyflwr da.
1.5	Rhaid darparu manau cysgu yn hollol ar wahân i'r man coginio.
1.6	Rhaid darparu gofod llawr o 4 medr sgwâr ar gyfer pob person. Hyn i'w gyfrifo ar sail uchafswm y nifer o fannau cysgu wedi ei rannu gyda chyfanswm y gofod llawr yn y manau cysgu, bwyta ac eistedd (h.y. Heb gyfrif y cyfleusterau toiled / cawod / manau coginio).
1.7	Os yw'r man coginio wedi ei leoli oddi mewn i'r adeilad, mae'n rhaid ei wahanu oddi wrth y manau cysgu, unai gyda phared neu trwy adael gofod rhyngddynt. Gellir darparu man coginio, dan orchudd, oddi allan i'r adeilad.
1.8	Er budd gwsteion, rhaid arddangos yn glir fanylion am y modd y gellir galw cymorth, ddydd neu nos, mewn achos o argyfwng (e.e., perchennog, meddyg, deintydd, gwasanaethau brys (h.y. 999) ac hefyd lleoliad y teliffon agosaf.

Cyfleusterau

Isafswm Gofynion	
2.01	Rhaid darparu cyflenwad cludadwy o ddŵr oer unai oddi mewn i'r adeilad neu gerllaw iddo.
2.02	Rhaid darparu manau cysgu, naill ai llwyfannau alpaidd, gwelyau, gwelyau bync neu arwynebau llawr pren addas Dylai gofod ar gyfer y gwelyau fod o leiaf 2' 6" x 6' neu gyfwerth yn achos llwyfannau.
2.03	Pob rhan o'r adeilad i fod wedi ei oleuo'n ddigonol ar gyfer symud o gwmpas yn ddiogel. (Gwneir eithriadau i'r isafswm gofynion hyn yn ôl doethineb Croeso Cymru yn achos sefydliadau anghysbell gydag ychydig neu ddim prif wasanaethau).
2.04	Rhaid darparu gwres digonol yn y lolfa / man bwyta / manau cymunedol.
2.05	Rhaid i'r man coginio, boed y tu mewn neu oddi allan i'r adeilad, fod ag arwyneb hylan ar gyfer paratoi bwyd. Os mai y tu allan y bydd y cyfleusterau, dylai fod wedi ei orchuddio.
2.06	Rhaid darparu sinc ar gyfer golchi offer coginio, llestri, cyllyll a ffyrac ayb, gydag o leiaf ddŵr oer o'r tap a deunyddiau golchi llestri.
2.07	Rhaid darparu mop, bwced, brwsh llawr a phadell lwch.
2.08	Os nad oes offer coginio sefydlog wedi ei ddarparu, dylid darparu arwyneb wedi ei leoli ar uchder addas, fel y gall gwsteion ddefnyddio'u stofiau eu hunain unai oddi mewn neu y tu allan i'r adeilad.
2.09	Mae'n rhaid darparu o leiaf 1 toiled (dŵr neu gemegol) a basn ymolchi ar gyfer pob 20 gwestai, unai oddi mewn neu y tu allan i'r adeilad.

2.10	Rhaid darparu nifer digonol o fyrddau a chadeiriau neu feinciau.
2.11	Rhaid gosod larwm tân a'i gynnal fel y bydd yn gweithio'n iawn.
2.12	Rhaid darparu diffoddwr tân a blanced dân a'u cynnal fel eu bod yn gweithio'n iawn.

CÔD YMDDYGIAD

Mae'n ofynnol i'r perchennog / rheolwr dderbyn y cod ymarfer canlynol ac ufuddhau iddo:

- Cynnal safonau gofal gwesteion, glanweithdra a gwasanaeth yn unol â'r hyn sydd yn addas ar gyfer y math penodol hwnnw o sefydliad.
- Disgrifio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir yn gywir mewn unrhyw hysbyseb, llawlyfr neu gyfrwng print neu electronig.
- Esbonio'n glir i ymwelwyr beth sydd wedi ei gynnwys yn y prisiau a noddir am y llety, gan gynnwys trethi ac unrhyw dâl ychwanegol arall. Dylid hefyd nodi manylion am y tâl a godir am gyfleusterau / wasanaethau ychwanegol.
- Rhoi datganiad clir o'r polisi ar ganslo i westeion pan fyddant yn archebu eu gwyliau h.y. trwy gyfrwng ffôn, ffacs neu e-bost yn ogystal â'r wybodaeth a roddir yn y llawlyfr print.
- Glynu wrth y prisiau a roddwyd wrth dderbyn archeb am lety a gwasanaethau eraill a pheidio â chodi prisiau uwch na hynny.
- Hysbysu gwesteion pan fyddant yn archebu eu gwyliau, neu wedi hynny, o unrhyw newid a wneir, pe byddai'r llety a ddarperir mewn anecs ar wahân neu mewn adeilad arall a nodi lleoliad y fan honno ac unrhyw wahaniaeth sydd yn safon y fan honno o safbwynt cysur a / neu gyfleusterau mewn cymhariaeth â'r prif adeilad.
- Wrth iddynt ofyn, rhoi manylion y tâl sy'n ddyledus ganddynt i bob gwestai, a derbynneb os byddant yn dymuno cael un.
- Ymateb yn brydlon ac yn gwrtais i bob ymholiad, cais, archeb a llythyr oddi wrth ymwelwyr.
- Sicrhau bod gweithdrefnau wedi eu sefydlu ar gyfer ymateb i gwynion a bod y cwynion a dderbynnir yn cael eu harchwilio yn ddi-oed ac yn gwrtais, a'r canlyniad yn cael ei ddwyn i sylw'r ymwelydd.
- Rhoi sylw dyladwy i ofynion ymwelwyr gydag anabledau ac ymwelwyr gydag anghenion arbennig, a darparu'n addas ar eu cyfer lle bo angen.
- Darparu yswiriant atebolrwydd i'r cyhoedd a chydymffurfio gyda phob gofynion perthnasol o safbwynt cynllunio, diogelwch a gofynion statudol eraill.
- Caniatáu i gynrychiolydd Croeso Cymru gael mynediad rhesymol i'r adeilad pan fyddant yn gwneud cais, er mwyn cadarnhau y cydymffurfir â'r cod ymarfer.

AMODAU AR GYFER CYFRANOGI

Mae'n ofynnol i'r holl sefydliadau sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau graddio Croeso Cymru gytuno i'r canlynol:

- Cwrdd â gofynion lefel mynediad isaf Croeso Cymru neu fynd y tu hwnt iddynt er mwyn derbyn gradd yn y sector llety perthnasol.
- Cydymffurfio â Chôd Ymddygiad Croeso Cymru.
- Derbyn asesiad yn flynyddol ac yn achos cwynion, gan gynrychiolydd swyddogol Croeso Cymru.
- Talu ffi archwilio blynyddol.
- Darparu Datganiad hygrychedd i'r Anabl (Yn weithredol o Hydref 2007).

Newid Perchnogaeth

Pan gaiff sefydliad ei werthu, ni ellir trosglwyddo'r radd gyfredol i'r perchennog newydd. Bydd yn ofynnol i'r perchennog newydd gyflwyno cais am gael bod yn rhan o gynllun graddio Croeso Cymru.

Arwyddion

Pan fydd sefydliad, am ba reswm bynnag, yn peidio â chymryd rhan yng nghynllun graddio Croeso Cymru, rhaid gwneud i ffwrdd â phob arwyddion arddangos a deunydd print perthnasol rhag blaen.

Dylid cynnwys logo perthnasol Croeso Cymru bob amser wrth arddangos y graddau Sêr.

Mae cynnwys manylion unrhyw sefydliad mewn llawlyfrau / ar wefan Croeso Cymru ac o fewn rhwydwaith y Canolfannau Croeso yn amodol ar fod yn rhan o gynllun archwilio a graddio Croeso Cymru.

Gall peidio â chydymffurfio â'r amodau hyn olygu na fydd y sefydliad yn gymwys i arddangos na defnyddio ardystiad Croeso Cymru mewn unrhyw fodd.

BETH I'W WNEUD OS NAD YDYCH YN CYTUNO Â'R RADD SÊR A RODDWDYD

Os ydych yn teimlo bod gennych le i anghytuno ar y radd Sêr a roddwyd i'ch eiddo, neu os ydych yn anghytuno â rhai agweddau ar adroddiad yr Asesydd Ansawdd, byddwch cystal â chysylltu â ni cyn pen 21 o ddiwrnodau wedi ichi gael yr adroddiad ysgrifenedig. Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar 0300 062 2000 neu anfon neges e-bost atom yn quality.tourism@wales.gsi.gov.uk a byddwn yn ceisio ateb eich pryderon.

Fel arall, efallai y byddwch am ysgrifennu atom yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR.

www.cymru.gov.uk/twristiaeth

MANYLION CYSWLLT

Os hoffech wneud cais am ymweliad ar gyfer gradd Seren neu drafod unrhyw fater perthnasol sy'n codi o gynnwys y canllaw hwn, cysylltwch â ni yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR.

Ffôn: 0300 062 2000.

E-bost: quality.tourism@wales.gsi.gov.uk

Gallwch hefyd gael ffurflen gais am raddio, manylion ffioedd a fersiwn electronig o'r canllaw hwn drwy fynd i'n gwefan www.cymru.gov.uk/twristiaeth a chlicio ar 'Graddio'.



Visit Wales
Croeso Cymru



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government